



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Gwasanaethau sy'n addas i'r dyfodol

Chwefror 2018

Rhagair y Gweinidog

Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddodd Rebecca Evans, y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, a minnau Bapur Gwyn i ymgynghori arno – *Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol* – yn nodi amrywiaeth o gynigion ar gyfer deddfwriaeth bosibl ar gyfer ansawdd a llywodraethiant ym maes iechyd a gwasanaethau gofal. Roedd y Papur Gwyn yn seiliedig ar ymgynghoriad cynharach ar Bapur Gwyrdd a gynhaliwyd tua diwedd cyfnod y Cynulliad diwethaf.

Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad, a ddaeth i ben ar 29 Medi, yn galonogol. Cafwyd nifer fawr o gyflwyniadau gan unigolion a sefydliadau yn ogystal â nifer o ymatebion profforma mewn perthynas â'n cynigion ar gyfer llais dinasyddion a chynrychiolaeth. Tynnwyd sylw penodol at ddyfodol model presennol y Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC) yng Nghymru a'n cynigion i gyflwyno trefniant gwahanol ar gyfer pob rhan o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol yn lle'r CICau.

Mae'n amlwg bod pobl yn teimlo'n gryf bod angen i ni weithredu nawr er mwyn gwarchod ein gwasanaethau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a hefyd fod yn rhaid rhoi sylw amlwg i farn y cyhoedd wrth roi unrhyw newid ar waith.

Wrth reswm, mae canlyniad yr ymgynghoriad hefyd o ddiddordeb mawr o ystyried adroddiad terfynol yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Bydd y ffordd y caiff canlyniad yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ei gysylltu ag argymhellion yr Adolygiad Seneddol yn hollbwysig.

Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad ac am eu cyfraniad at y ddadl ar adeg mor bwysig yn hanes ein system iechyd a gofal cymdeithasol.



Vaughan Gething

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyflwyniad

1. Ar 28 Mehefin 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Papur Gwyn 'Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol'. Diben y Papur Gwyn oedd gofyn am sylwadau ar gynigion a oedd yn ymwneud â nifer o faterion iechyd a gofal cymdeithasol y gall fod angen llunio deddfwriaeth yn y dyfodol er mwyn bwrw ymlaen â hwy.
2. Roedd y cynigion yn y Papur Gwyn yn cynnwys cryfhau'r byrddau iechyd lleol fel eu bod yn gweithio fel sefydliadau integredig ac atebol sy'n seiliedig ar y boblogaeth; dyletswyddau gonestrwydd ac ansawdd newydd; meysydd lle gall iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio'n fwy; a dulliau mwy effeithiol o arolygu, rheoleiddio a dal lleisiau dinasyddion.
3. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r themâu allweddol a ddeilliodd o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, gan gynnwys y rheini a nodwyd o'r ymatebion ysgrifenedig, o'r amrywiol gyfarfodydd yr aeth swyddogion Llywodraeth Cymru iddynt ac o wyth o gyfarfodydd grwpiau ffocws a gynhaliwyd tua diwedd yr ymgynghoriad. Mae hefyd yn amlinellu'r camau nesaf i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru.
4. Fel gydag unrhyw ddogfen gryo, nid yw'n bosibl cyfleu pob sylw unigol a gafwyd, ond rydym wedi ceisio cyflwyno barn gytbwys ac yn gobeithio y bydd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gweld bod o leiaf rai o'u sylwadau wedi'u hadlewyrchu yn y themâu a nodir yn y ddogfen. Ni fu unrhyw ymdrech i roi blaenoriaeth i ymatebion unrhyw sefydliad nac unigolyn penodol.
5. Ceir dadansoddiad manwl o'r themâu a nodwyd mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd yn y Papur Gwyn o dan bennawd pob Pennod.

Y cyfnod ymgynghori a'r ymatebion a gafwyd

Ymatebion ysgrifenedig unigol

6. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o dri mis a ddaeth i ben ar 29 Medi 2017. Cafwyd cyfanswm o 336 o ymatebion ysgrifenedig unigol naill ai ar-lein neu drwy flwch negeseuon e-bost yr Is-adran Ansawdd Gofal Iechyd. Rhoddwyd gwybod i'r ymatebwyr posibl i'r ymgynghoriad y gellid cyhoeddi eu hymateb, ynghyd â'u henw, oni fyddent yn cysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn am gael bod yn ddienw. Ceir rhestr lawn o ymatebwyr unigolyn yn **Atodiad A** a gellir eu trefnu fel a ganlyn.

Math o ymatebydd	Nifer
Unigolion	180
Llywodraeth Leol	19
Prifysgolion a chyrff academiaidd	1
Pleidiau gwleidyddol/grwpiau undeb	17
Grwpiau a chymdeithasau gweithwyr iechyd proffesiynol	21
Sefydliad/staff y GIG	22
Adrannau/asiantaethau'r Llywodraeth	10
Llais dinasyddion/trydydd sector/Comisiynwyr	56
Mentrau cymdeithasol/busnesau	9
Grwp Crefyddol	1
Cyfanswm	336

7. Mae testun llawn pob un o ymatebion ysgrifenedig unigol wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru gyda'r adroddiad hwn.

Ymateb profforma mewn perthynas â chynigion Llais Dinasyddion

8. Yn ystod yr ymgynghoriad, cyhoeddodd y Cynghorau Iechyd Cymuned eu profforma eu hunain yn gofyn am farn ar y cynigion yn y Papur Gwyn oedd yn ymwneud â llais y dinesydd. Derbyniwyd 1328 o'r ymatebion profforma hyn wedi'u cwblhau. Mae'r cwestiynau a oedd yn y profforma i'w gweld yn **Atodiad B** ac rydym wedi rhoi sylw i'r rhain wrth ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

9. Yn ogystal â'r ymatebion ysgrifenedig, rhoddodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyflwyniadau, ar gais, i sawl cyfarfod rhanddeiliaid cyn y cyfnod ymgynghori ac yn ystod y cyfnod hwnnw. Ceir rhestr o'r cyfarfodydd yr aed iddynt yn **Atodiad C**.

Grwpiau ffocws

10. O ran digwyddiadau ymgynghori, roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithredu'n wahanol i'r digwyddiadau ymgynghori mawr a gynhelir fel arfer. Felly, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd anffurfiol ar ffurf grwpiau ffocws wedi'u hanelu at ddenu aelodau o'r cyhoedd nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan a/neu'n arfer ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i Communities Connected hwyluso'r digwyddiadau hyn ar ran Llywodraeth Cymru.
11. Cynhaliwyd y digwyddiadau rhwng 18 a 28 Medi mewn amrywiaeth o leoliadau ledled Cymru gan ddenu cyfanswm o ychydig o dan 100 o bobl. O safbwynt cadarnhaol, daeth nifer o grwpiau na chânt eu cynrychioli'n ddigonol mewn ymgynghoriadau yn draddodiadol, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr, pobl ifanc, pobl hŷn a chyfranogwyr pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Roedd yn ddefnyddiol iawn clywed gan bobl â phrofiad o'r llwybr iechyd a gofal cymdeithasol cyfan ac roedd yn amlwg bod pobl yn fwy na pharod i gymryd rhan yn y broses ymgynghori a rhannu eu syniadau. Fodd bynnag, daethom ar draws rhai heriau wrth weithredu yn y fath fodd, yn arbennig mewn perthynas â rhoi llawer o wybodaeth fanwl i gynulleidfa nad oedd yn gyfarwydd iawn â'r materion. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ceisio dysgu o'r digwyddiadau hyn er budd ymgynghoriadau yn y dyfodol.
12. Roedd llawer o'r sylwadau a wnaed gan gyfranogwyr yn y digwyddiadau hyn yn debyg i'r rhai a wnaethpwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig a chânt eu hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn. Ceir rhestr yn **Atodiad D** o gyfarfodydd y grwpiau ffocws a drefnwyd.

Casgliadau'r ymarfer ymgynghori

13. I raddau helaeth, down i'r casgliad bod pobl yn gyffredinol o blaid y bwriad sy'n sail i gynigion y Papur Gwyn. Ystyriodd y Papur Gwyn y system gyfan o iechyd a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac awgrymodd becyn o fesurau i ategu trefniadau ar gyfer integreiddio gwasanaethau'n well. Mae'r mesurau hyn yn ymwneud ag arweinyddiaeth, llais dinasyddion, gwneud penderfyniadau a chynllunio, gwneud

safonau yn fwy cydnaws, ymdrin â phryderon a threfniadau rheoleiddio ac arolygu effeithiol.

14. Cafwyd dealltwriaeth glir mewn llawer o'r ymatebion fod angen gweithredu er mwyn sicrhau gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol ac mai dim ond drwy weithio gyda'r boblogaeth y gellir cyflawni hyn. Roedd yr ymatebion yn adlewyrchu'r farn ei bod yn hanfodol i sefydliadau gydweithio er mwyn hyrwyddo llesiant, nodi anghenion pobl a chynllunio a darparu gwasanaethau o ansawdd i safon gadarn a chyson. Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebion yn canolbwyntio ar weithredu'r cynigion ac yn gofyn am ragor o fanylion am sut y gallent weithio'n ymarferol.
15. Cafwyd cefnogaeth i arweinyddiaeth fwy effeithiol, sicrhau bod Byrddau yn meddu ar y sgiliau a'r profiad priodol a chymryd camau gweithredu cadarn lle yr ystyriwyd bod sefydliadau yn methu. O ran penderfyniadau i newid gwasanaethau, roedd pobl yn awyddus i sicrhau y caiff tystiolaeth glinigol ei hystyried a bod safbwyntiau dinasyddion yn cael yr un ystyriaeth â safbwyntiau arbenigwyr. Felly, byddwn yn anelu at ddatblygu'r meysydd hyn ymhellach.
16. Fel yn yr ymgynghoriad blaenorol ar y Papur Gwyrdd, nid oedd rhai ymatebwyr wedi'u hargyhoeddi o hyd y dylid defnyddio deddfwriaeth i hyrwyddo newid mewn ymddygiad, ac roeddent am weld defnydd mwy effeithiol o'r darpariaethau a nodir o fewn deddfwriaeth bresennol y Cynulliad. Fodd bynnag, roedd llawer o ymatebwyr yn gweld gwerth y Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd newydd arfaethedig ac o'r farn y gallai'r dyletswyddau hyn gynnig ysgogiad pellach i gydweithio ac i sicrhau canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru. Felly byddwn yn ystyried y meysydd hyn ymhellach.
17. Roedd yn amlwg bod ymchwydd o gefnogaeth i roi llais annibynnol i'r cyhoedd fel rhan o'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Disgrifiwyd y cynnig i gyflwyno corff cenedlaethol newydd i gynrychioli dinasyddion ym mhob rhan o'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn lle'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn fanwl yn y Papur Gwyn. O ganlyniad, tybiwyd y byddai rhai o swyddogaethau neu agweddau penodol y trefniadau cyfredol yn cael eu colli. Nid dyna oedd y bwriad. Fodd bynnag, er gwaethaf y pryderon a godwyd, cafwyd consensws eang bod angen diwygiadau yn y maes hwn, er mwyn cryfhau llais dinasyddion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gwnaed llawer o awgrymiadau adeiladol, y byddwn yn bwrw ati nawr i'w hystyried.
18. Cafwyd sylwadau cymysg o ran uno'r arolygiaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'u gwneud yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Felly, ni fyddwn yn bwrw ati i wneud y newidiadau ar hyn o bryd ond, yn hytrach, byddwn yn ymdrin â'r bylchau rheoleiddiol sy'n bodoli mewn ffordd fwy cymesur ac yn sicrhau bod y deddfwriaeth sy'n sail i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn addas i'r dyfodol. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer cydweithio'n agosach ag Arolygiaeth Gofal Cymru. Yn gysylltiedig â hyn, cafwyd cefnogaeth i fframwaith safonau cyffredin ym mhob rhan o'r sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol, y sector annibynnol a'r trydydd sector, a byddwn yn anelu at ddatblygu hyn ymhellach.

Y camau nesaf

19. Mae'r dadansoddiad manwl o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w weld o dudalen 7 ymlaen. Yn gryno, a chan ystyried y materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad,

rydym yn bwriadu datblygu polisiau ymhellach, ar y cyd â rhanddeiliaid, mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Aelodaeth a chyfansoddiad Byrddau Iechyd*
- Gallu Gweinidogion Cymru i benodi aelodau ychwanegol i Fyrddau er mwyn ymdrin â phryderon o ran perfformiad
- Rôl Ysgrifennydd y Bwrdd
- Dyletswydd Ansawdd
- Dyletswydd Gonestrwydd
- Safonau Cyffredin
- Ymdrin â Chwynion ar y Cyd*
- Llais Dinasyddion
- Newidiadau i Wasanaethau
- Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Iechyd

*mae'n bosibl na fydd angen deddfwriaeth sylfaenol ar y meysydd hyn

Dadansoddiad manwl o themâu'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Pennod 1: Aelodaeth a chyfansoddiad byrddau iechyd

20. Nododd y rhan hon o Bennod 1 o'r Papur Gwyn ein cynigion a'n hawgrymiadau o ran sut y gellir cryfhau byrddau'r GIG er mwyn ymdrin â'r heriau a fydd yn eu hwynebu. Ymdriniodd â maint a chyfansoddiad byrddau'r GIG a sut maent yn gweithio gydag eraill.

Y cwestiynau a ofynnwyd gennym:

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai Byrddau ymddiriedolaethau'r GIG a byrddau iechyd rannu rhai egwyddorion craidd allweddol sydd wedi'u hamlinellu, gan gynnwys darparu gofal mewn partneriaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a fframwaith llywodraethiant cryf i alluogi'r Bwrdd i weithio'n effeithiol a chyflawni ei gyfrifoldebau.

Dylai pob Bwrdd gael Is-gadeirydd er mwyn cefnogi arweinyddiaeth fedrus a phenodol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn y dylai Gweinidogion gael yr awdurdod i benodi aelodau ychwanegol i'r Bwrdd fel penodiadau am amser penodedig os yw Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth y GIG yn tanberfformio neu o dan drefniadau uwchgyfeirio yn unol â Threfniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru.

Cred Llywodraeth Cymru y dylai aelodau sy'n swyddogion gweithredol ar fyrddau iechyd lleol gynnwys swyddi allweddol sy'n gyson ym mhob bwrdd iechyd lleol ond gan hefyd ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd i benodi yn seiliedig ar y cylch gwaith a blaenoriaethau.

A ydych yn cytuno â'r cynigion hyn?

Pa faterion eraill hoffech i ni eu hystyried wrth ddatblygu'r cynigion hyn?

Themâu'r ymatebion

Cyffredinol

21. Nid atebodd llawer o'r ymatebwyr y cwestiynau am aelodaeth a chyfansoddiad byrddau, neu, os gwnaethant ateb, gwnaethant gytuno â'r cynigion heb unrhyw sylwadau pellach. Ychydig iawn o ymatebwyr a anghytunodd â'r cynigion. O blith y rheini a ymatebodd i'r cwestiynau yn yr adran hon, nodwyd y naratifau allweddol canlynol.
22. Yn gyffredinol, roedd y rheini a ymatebodd yn cytuno y **dylai fod cyfres o egwyddorion craidd**, fel yr amlinellwyd yn y Papur Gwyn. Roeddent o'r farn y dylai sicrhau bod Byrddau Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd yn rhannu egwyddorion cyffredin o ran gweithio mewn partneriaeth (gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, y trydydd sector a phartneriaid gofal cymdeithasol), gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a fframwaith llywodraethiant cryf helpu Byrddau i weithio'n effeithiol a dileu rhwystrau i weithio integredig.

Arweinyddiaeth, Diwylliant y Bwrdd ac Ymddygiad

23. Roedd ymatebwyr yn glir na allai deddfwriaeth ar ei phen ei hun sicrhau sgiliau rheoli ac arwain cryf a thanlinellwyd ganddynt ei bod yn bwysig sicrhau bod aelodau byrddau yn meddu ar y **sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol** i ddeall eu rôl ac anghenion eu poblogaeth. Roedd syniadau ar gyfer rhaglenni datblygu byrddau cadarn yn cynnwys cynnig hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, egwyddorion craidd y GIG a hyfforddiant rheoli ansawdd a gydnabyddir yn rhyngwladol. Cydnabuwyd hefyd **fod angen arweinyddiaeth ym mhob rhan o'r GIG**, nid dim ond ar lefel byrddau, tra nododd eraill fod angen gwerthuso perfformiad aelodau byrddau er mwyn sicrhau bod byrddau yn cyrraedd y safonau uchaf a bod pob aelod o'r bwrdd yn gallu ychwanegu gwerth at y gwaith.
24. Roedd ymdeimlad clir y dylai aelodaeth bwrdd **adlewyrchu amrywiaeth ei boblogaeth yn briodol**, ac y dylid defnyddio prosesau recriwtio effeithiol er mwyn denu unigolion o wahanol gefndiroedd, grwpiau oedran a grwpiau ethnig sy'n meddu ar gyfoeth ehangach o brofiad amrywiol a chalibr sgiliau (gan gynnwys y Gymraeg) sydd eu hangen i ymgymryd â'r rôl. Dyma oedd y farn yn rhai o gyfarfodydd y grŵp ffocws hefyd.
25. Nododd rhai bwysigrwydd sicrhau bod llais staff wedi'i gynrychioli ar lefel y Bwrdd, tra tanlinellodd eraill yr angen i ystyried cyfleoedd i gynyddu a gwella cyfranogiad staff o rannau ehangach o'r GIG ym mhrosesau'r Bwrdd. Ystyriwyd bod cynnwys llais cyflogeion o fewn y strwythur llywodraethu ffurfiol yn cynnig set safbwyntiau a gwybodaeth wahanol y dangoswyd y gall wella ansawdd penderfyniadau'r Bwrdd.
26. Roedd rhai o'r farn y dylid cynnig cyfleoedd i aelodau'r Bwrdd brofi'r "rheng flaen" a chydabod sut mae penderfyniadau yn effeithio ar y ffordd y caiff gofal ei ddarparu. Yn yr un modd, roedd eraill yn awyddus i sicrhau mai **prif ffocws Byrddau yw canlyniadau iechyd a llesiant cyffredinol y boblogaeth**, gan gyflenwi gwasanaeth cynaliadwy sy'n sicrhau llesiant ac annibyniaeth.

Mwyafrif o Aelodau Annibynnol

27. Yn gyffredinol, cytunwyd bod **angen mwyafrif cryf o Aelodau Annibynnol** er mwyn darparu her ddigonol ar lefel y bwrdd, er y nododd un ymatebydd mai dim ond o fewn diwylliant dysgu a gwella y byddai hyn yn digwydd.
28. Cafwyd sylwadau ehangach hefyd ar y rôl, gan gynnwys rhai a oedd o'r farn bod y dyraniadau amser presennol ar gyfer rolau Aelodau Annibynnol yn afrealistig ac a oedd yn gofyn i'r **ymrwymiad tybiannol disgwylledig gynyddu o 4 diwrnod i 6 diwrnod y mis o leiaf**. Nododd rhai hefyd na ddylid penodi Aelodau Annibynnol ar yr un pryd fel na chaed sefyllfa lle y byddai sawl aelod profiadol yn gadael y bwrdd ar yr un pryd. Gofynnodd eraill a ddylai rolau Aelodau Annibynnol fod mor benodedig ac awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol adolygu a phenodi ar sail y sgiliau sydd eu hangen ar y Bwrdd, er bod yn well gan eraill rolau wedi'u diffinio'n glir.

Cyfeirio at Aelodau Annibynnol fel 'Aelod Cyhoeddus'

29. **Gwrthodwyd** y term 'Aelod Cyhoeddus' **yn eang** fel teitl newydd ar gyfer Aelodau Annibynnol. Nododd y rheini nad oeddent o blaid y mesur na fyddai o fudd ymarferol

mewn gwirionedd ac y gallai fod yn gamarweiniol neu y gellid ei gamddeall fel rhywun a oedd yn cynrychioli'r cyhoedd drwy etholiad. Yn yr un modd, nododd eraill y gellid drysu rhwng rôl yr Aelod Annibynnol a rôl yr Aelod Cyswllt (sy'n gyfrifol am gynrychioli dinasyddion). Dywedodd rhai fod termau sy'n bodoli eisoes megis Aelod nad yw'n Swyddog ac Aelod Anweithredol eisoes yn cael eu deall yn eang. Ym marn eraill, gallai olygu na fyddai holl aelodau'r bwrdd yn ceisio ystyried a deall safbwynt y cyhoedd.

30. Awgrymodd rhai, er mwyn cyfryngu'r mater hwn, y dylid cadw'r term 'Annibynnol' ond ei rannu gyda'r term 'Cyhoeddus'.

Is-gadeiryddion

31. Er bod nifer fach o ymatebwyr o'r farn nad oedd y Papur Gwyn wedi egluro budd penodi Is-gadeirydd i bob un o fyrddau'r GIG, **roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr o blaid y cynigion o ran egwyddor**. Nododd ymatebwyr y byddai penodi Is-gadeiryddion i bob bwrdd yn sicrhau parhad gwasanaeth a chysondeb rhwng holl sefydliadau GIG Cymru. Ystyriwyd hefyd y byddai'n cryfhau trefniadau arwain a llywodraethu.
32. Tanlinellwyd meysydd penodol i'w hystyried gan rai, gan gynnwys p'un a ddylai swydd yr Is-gadeirydd fod yn swydd Weithredol neu'n swydd Anweithredol a pha mor sefydlog neu hyblyg y dylai'r rôl fod o ran ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol.

Penodiadau Gweinidogol

33. Cafwyd **cefnogaeth sylweddol hefyd i'r egwyddor o gyflwyno penodiadau Gweinidogol â chyfyngiadau amser arnynt** mewn achosion lle nodir bod byrddau iechyd neu ymddiriedolaethau'r GIG yn tanberfformio. Roedd llawer o ymatebwyr yn glir y byddai angen i unrhyw broses o'r fath fod yn dryloyw a sicrhau annibyniaeth barhaus y Bwrdd. Dyma hefyd oedd barn rhai o'r cyfranogwyr oedd yn bresennol yng ngrŵp ffocws Aberhonddu, a oedd yn credu y bydd angen i'r rhai a benodid gan Weinidogion gael cylch gorchwyl clir.
34. Nododd un ymatebydd yr angen i bennu p'un a ddylai penodiadau o'r fath fod yn aelodau llawn neu'n aelodau cyswllt.
35. Gofynnodd rhai am werthusiad i ganfod p'un a ellid defnyddio'r broses yn effeithiol fel mesur ataliol yn hytrach na'i defnyddio mewn ymateb i achosion o danberfformio; roedd hyn yn cynnwys p'un a ddylai Byrddau allu gwneud cais am benodiadau o'r fath neu fwrw ati i'w gwneud ar adegau lle roedd angen set sgiliau benodol ar waith neu flaenoriaethau sefydliadol y Bwrdd.

Aelodaeth Gyswllt

36. Cafwyd **consensws cyffredinol y dylai'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr hefyd allu gwneud cyfraniad ystyrlon at gyfarfodydd y Bwrdd** ac y dylai aelodau'r Bwrdd ddeall anghenion pobl leol a materion lleol. Awgrymodd rhai fod angen i gyfansoddiad ac atebolrwydd aelodaeth byrddau newid er mwyn i hyn ddigwydd; boed yn aelodau etholedig o Awdurdodau Lleol, yn aelodau o'r cyhoedd neu'n gynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus neu'r trydydd sector / grwpiau cymunedol.

37. Roedd rhai yn cytuno y gallai aelodaeth gyswilt byrddau ymdrin â llais cynrychiolwyr, ond awgrymwyd y byddai angen mandad clir gan y cyhoedd ar yr unigolyn yn y swydd. Roedd hyn yn cynnwys sawl awgrym y gallai aelod o'r Cyngor lechyd Cymuned, neu gorff newydd a adolygir sy'n cynrychioli llais y cyhoedd, ymgymryd â rôl o'r fath.

Aelodau Gweithredol Penodedig neu'r Model Hyblyg

38. Ar ôl pwysu a mesur y sylwadau a gafwyd, y sefyllfa a ffafriwyd oedd **gweithredu model yn cynnwys casgliad o swyddi craidd ar fyrddau gan gynnig hyblygrwydd o fewn rolau eraill.**
39. Nododd yr ymatebwyr hynny yr oedd yn well ganddynt y model hwn fod fframwaith llywodraethu clir sy'n cynnwys **cyfansoddiad craidd yn hanfodol er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ym mhob rhan o'r GIG yng Nghymru** ac er mwyn cyflawni swyddogaethau allweddol, ond y byddai rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i fyrddau yn golygu y gall sefydliadau ymateb i ddemograffeg ac anghenion lleol. Gallai cynnig **hyblygrwydd llwyr** o ran aelodaeth weithredol **olygu y câi Byrddau eu rheoli a'u harwain mewn ffordd wahanol iawn.**
40. Cafwyd **awgrymiadau gwahanol o ran cyfansoddiad yr aelodau gweithredol craidd.** Nodwyd rolau Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Meddygol, Cyfarwyddwr Nyrsio, Cyfarwyddwr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl, Cyfarwyddwr Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Chyfarwyddwr Therapiau a Gwyddor Iechyd oll i wahanol raddau fel rolau yr oedd angen iddynt ymgymryd â rôl graidd ar bob bwrdd.
41. Awgrymodd rhai y gallai **lleihau maint cyffredinol y bwrdd** i gynnwys rhwng deg a deuddeg aelod wella effeithiolrwydd. Nodwyd y dylai Bwrdd llai o faint ddangos y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r ymwybyddiaeth o faterion er mwyn gallu ystyried yr holl fuddiannau perthnasol yn briodol, megis buddiannau grwpiau gwahanol o weithwyr iechyd proffesiynol, er na fyddai o reidrwydd yn ceisio eu cynrychioli. Nododd un ymatebydd y byddai angen cynnal adolygiad o ymrwymïadau amser Aelodau Byrddau cyn gwneud newid o'r fath.
42. Fodd bynnag, awgrymodd rhai ymatebwyr eraill **y gallai caniatáu amrywiadau o ran rolau gweithredol 'di-graidd' arwain yn anfwriadol at eithrio meysydd arbenigol, safbwyntiau a sgiliau pwysig** wrth wneud penderfyniadau allweddol ac y gallai leihau effeithiolrwydd y bwrdd yn y pen draw.
43. Awgrymodd rhai, a oedd o blaid hyblygrwydd llwyr, **y byddai rhoi rheolaeth lawn i'r Byrddau dros y strwythur gweithredol**, o ran niferoedd a rolau, yn golygu y gallai'r bwrdd weithredu'n well mewn perthynas ag amcanion a blaenoriaethau'r sefydliad. Nododd eraill y dylid nodi isafswm neu uchafswm nifer y swyddi Gweithredol, gyda'r Byrddau yn penderfynu pa rolau a sgiliau sydd eu hangen. Nododd un ymatebydd y dylid pennu maint ac aelodaeth y Bwrdd yn ôl yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r amrywiaeth o rolau a chyfrifoldebau sydd eu hangen i gynnal busnes y sefydliad.

Pennod 1: Rôl Ysgrifennydd y Bwrdd

44. Nododd y rhan hon o Bennod 1 o'r Papur Gwyn ein cynigion ar gyfer cryfhau rôl bwysig Ysgrifennydd y Bwrdd er mwyn rhoi'r mesurau diogelu priodol sydd eu hangen arno i weithredu'n briodol. Amlinellwyd nifer o egwyddorion allweddol ar gyfer y rôl gennym hefyd.

Y cwestiynau a ofynnwyd gennym:

Er mwyn cyflawni'r egwyddorion allweddol sydd wedi'u hamlinellu, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid gosod rôl Ysgrifennydd y Bwrdd ar sail statudol ac y dylid ei diogelu'n statudol er mwyn i'r rôl fod yn annibynnol gyda mesurau diogelu ar waith i herio Prif Weithredwr sefydliad y GIG neu'r Bwrdd yn ehangach.

A ydych yn cytuno â'r cynigion hyn?

Pa faterion eraill hoffech i ni eu hystyried wrth ddatblygu'r cynigion hyn?

Themâu'r ymatebion

Cyffredinol

45. Fel llawer o'r pynciau eraill a godir yn yr ymgynghoriad hwn, ni chyfeiriodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr yn uniongyrchol at rôl Ysgrifennydd y Bwrdd. Rhoddodd eraill ateb 'ydw' neu 'nac ydw' heb unrhyw sylwadau nac esboniadau ychwanegol dros eu barn.
46. O blith y rheini a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol, roedd y mwyafrif helaeth o blaid rhoi mesurau diogelu statudol ar waith, gan roi cyfle i Ysgrifennydd y Bwrdd herio'r Bwrdd heb ofni edliw. Dyna hefyd oedd barn rhai o'r bobl a ddaeth i'r grwpiau ffocws. Tanlinellodd rhai fod **potensial i fodelu rôl** Ysgrifennydd y Bwrdd **ar Swyddog Monitro Awdurdodau Lleol**, er y byddai angen addasu'r rôl i ddiwallu anghenion Byrddau'r GIG. Ystyriwyd bod rôl Swyddog Monitro Awdurdodau Lleol yn enghraifft addas o rôl sy'n darparu dyletswydd gyfreithiol i roi gwybod am faterion cyfreithiol ac achosion o gamweinyddu a rheoli'r cod ymddygiad a'r cwynion sy'n gysylltiedig ag ymddygiad Prif Swyddogion ac aelodau etholedig. Mae dyletswydd benodol ar y swyddogion hyn hefyd i sicrhau bod y Cyngor, ei swyddogion a Chynghorwyr etholedig yn cyrraedd y safonau uchaf.

Teitl Swydd, Disgrifiad a Sgiliau

47. Gofynnodd rhai ymatebwyr am **newid i deitl y swydd** o Ysgrifennydd y Bwrdd i Gyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. Nododd sawl un o'r ymatebion hyn nad oes dealltwriaeth glir o'r rôl mewn rhai sefydliadau, er bod disgwyl i'r unigolion dan sylw herio'r Bwrdd a bod ar lefel Cyfarwyddwr eu hunain o fewn eu sefydliad. Nododd eraill eu bod o'r farn nad oedd y derminoleg yn gyfoes. Fel y cyfryw, **ymddengys fod dynodiad cliriach o'r rôl yn boblogaidd** ymhlith ymatebwyr.

48. Roedd rhai yn cytuno na ddylai rôl Ysgrifennydd y Bwrdd **wyro o'r disgrifiad swydd enghreifftiol a geir yn y Rheolau Sefydlog Enghreifftiol**. Mae hyn yn cynnwys y ffaith nad oes unrhyw hyblygrwydd i'r rôl gynnwys materion rheoli gweithredol na dehongli egwyddorion allweddol yn lleol. Teimlwyd y byddai cael gwared ar yr hyblygrwydd i ddehongli'r rôl yn lleol yn lleihau'r posibilrwydd y ceid achosion o wrthdaro buddiannau. Gofynnodd un ymatebydd p'un a ddylid ystyried cynnwys **cymhwyster priodol** neu achrediad fel rhan o'r gofynion ar gyfer rôl Ysgrifennydd y Bwrdd. Er enghraifft, nodwyd Cynllun Cymhwyso Ysgrifenyddion Siartredig Sefydliad yr Ysgrifenyddion a Gweinyddwyr Siartredig (ICSA).

Llinellau Adrodd

49. Tynnodd ymatebion sylw at y **llinellau adrodd mwyaf priodol** ar gyfer Ysgrifenyddion Bwrdd. Gofynnodd rhai a fyddai mewn gwirionedd yn bosibl i Ysgrifenyddion Bwrdd fod yn annibynnol ar y Bwrdd, gan eu bod yn uniongyrchol atebol i'r Cadeirydd / Prif Weithredwr ac yn cael eu cyflogi gan y sefydliad. Awgrymodd sawl ymatebydd **y dylai Llywodraeth Cymru gyflogi Ysgrifenyddion Byrddau yn uniongyrchol**. Awgrymodd ambell un a oedd yn bresennol yng ngrŵp ffocws Pontypridd y dylai rôl Ysgrifennydd y Bwrdd fod yn atebol i Swyddfa Archwilio Cymru. Awgrymodd un ymatebydd y dylai Ysgrifennydd y Bwrdd hefyd fod yn gyfrifol am hysbysu Llywodraeth Cymru pe gwneid unrhyw newidiadau i rolau'r Prif Weithredwr, y Bwrdd ehangach neu sefydliad y GIG yn gyffredinol a fyddai'n effeithio ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd.
50. Amlinellodd rhai ymatebwyr yr angen i roi ystyriaeth bellach i faterion megis **p'un a fyddai'r Ddyletswydd Gonestrwydd hefyd yn berthnasol i Ysgrifennydd y Bwrdd**.

Pennod 2: Dyletswydd Ansawdd i Boblogaeth Cymru

51. Nododd y rhan hon o Bennod 2 o'r Papur Gwyn ein cynigion ar gyfer gosod Dyletswydd Ansawdd newydd ar sefydliadau'r GIG yng Nghymru a fyddai'n helpu i symud y ffocws ar gynllunio gwasanaethau o sefydliadau i ddinasyddion. Cynigiwyd gennym hefyd y dylid cryfhau'r ddyletswydd cynllunio bresennol.

Y cwestiynau a ofynnwyd gennym:

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid diweddaru'r ddyletswydd ansawdd a'i gwella er mwyn adlewyrchu ein system integredig yn well. Dylai'r ddyletswydd hon fod ddigon eang ei chwmpas i hwyluso anghenion poblogaeth Cymru i gynorthwyo a galluogi atebion cydweithredol, rhanbarthol ac ar lefel Cymru gyfan i ddylunio a darparu gwasanaethau.

Dylai cyrff y GIG hefyd gael eu rhoi o dan ddyletswydd gytbwys ag awdurdodau lleol i gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth i wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn y bydd cryfhau'r ddyletswydd gynllunio bresennol yn sicrhau bod byrddau iechyd yn cydweithio ar anghenion poblogaeth Cymru wrth gynllunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd.

A ydych yn cytuno â'r cynigion hyn?

Pa faterion eraill hoffech i ni eu hystyried wrth ddatblygu'r cynigion hyn?

Themâu'r ymatebion

Cyffredinol

52. Nid atebodd llawer o'r ymatebwyr y cwestiynau am Ddyletswydd Ansawdd, neu, os gwnaethant ateb, gwnaethant nodi "ydw" neu "nac ydw" heb unrhyw sylwadau pellach. Roedd nifer nodedig o'r ymatebion ar-lein, yn ôl pob tebyg, o blaid Dyletswydd Ansawdd yn gyffredinol ond ni wnaethant unrhyw sylwadau mewn gwirionedd am y cynnig. O blith y rheini a atebodd y cwestiynau yn yr adran hon, nodwyd y themâu allweddol canlynol. Trafodwyd hyn yn y rhan fwyaf o'r grwpiau ffocws, ac roedd pobl yn teimlo y gallai hon fod yn ddyletswydd ddefnyddiol pe câi ei rhoi ar waith yn iawn.

P'un a yw Dyletswydd Ansawdd wedi'i diweddaru ar gyfer Poblogaeth Cymru/dyletswydd cynllunio ddiwygiedig yn syniad da

53. Roedd cryn dipyn o gefnogaeth i Ddyletswydd Ansawdd newydd neu wedi'i diweddaru, ac roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'n **gwella cydweithrediad** ac yn annog gwasanaethau i gael eu **cynllunio gydol oes unigolyn**. Roedd pobl eraill o'r farn y gallai Dyletswydd Ansawdd fod **yn ddefnyddiol wrth ddileu annhegwch** yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu mewn gwahanol rannau o Gymru a/neu hyd yn oes ar draws y ffin. Nododd nifer o bobl ei bod **yn hen bryd** cyflwyno **dyletswydd gyfatebol** ar gyrf y GIG i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.

54. Ar y llaw arall, roedd nifer o ymatebwyr o'r farn **nad oedd fawr angen dyletswyddau newydd o'r fath**, gan y dylai byrddau iechyd eisoes fod yn anelu at ddarparu gwasanaethau o ansawdd ac yn gweithio gydag eraill er mwyn gwneud hynny, yn eu barn nhw. Nododd rhai pobl na roddwyd digon o esboniad ynghylch pam nad oedd y Ddyletswydd Ansawdd bresennol bellach yn addas at y diben. Roedd eraill o'r farn bod **digon o ddyletswyddau cydweithredol** ar gyrff cyhoeddus eisoes a phe defnyddiwyd y dyletswyddau hyn yn briodol, na fyddai angen rhagor o ddeddfwriaeth. Nododd rhai pobl pe rhoddid Dyletswydd Ansawdd ar waith y **byddai angen iddi fod yn gydnaws** â deddfwriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Chenedlaethau'r Dyfodol **sy'n bodoli eisoes**, o ran **iaith a chysyniadau tebyg**. Dylid anelu at **symleiddio'r** dirwedd cynllunio a chydweithredu, **yn hytrach na'i chymhlethu** ymhellach.
55. Roedd un ymatebydd o'r farn mai dim ond yn lleol y gall byrddau iechyd lleol fyth weithredu, fel y nodir gan eu henw a'u swyddogaethau, ac y dylai **Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** felly ymgymryd â **rôl ganolog wrth ysgogi trefniadau cydweithio a newid diwylliannol**. Roedd nifer o bobl o'r farn y dylid chwilio am ddatrysiadau Cymru gyfan neu ddatrysiadau canolog lle bynnag y bo'n bosibl ac y byddai **nodau cyffredin, cynlluniau unigol a chyllidebau wedi'u cyfuno** yn arwain at gyfrifoldeb cyfun am ganlyniadau.
56. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai Dyletswydd Ansawdd ddiwygiedig i Boblogaeth Cymru **achosi problemau atebolrwydd** ac y byddai angen i'r amrywiol sefydliadau fod yn glir o ran pwy oedd yn gyfrifol am y penderfyniadau ac am gyflenwi'r gwasanaethau. Roedd hyn o ddiddordeb arbennig i'r rhai a ddaeth i'r grŵp ffocws yn y Trallwng, a hynny oherwydd bod cynllunio trawsffiniol yn fater cymhleth i drigolion Powys.
57. Mynegodd pobl eraill bryderu y gallai Dyletswydd Ansawdd a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd edrych y tu hwnt i'w poblogaethau arwain at rai **canlyniadau anfwriadol**, gan gynnwys effaith andwyol ar **bobl leol**. Roedd hyn yn fater penodol i bobl mewn **ardaloedd gwledig** a oedd o'r farn y byddai gwasanaethau o bosibl yn cael eu symud tuag at ganolfannau poblogaeth mwy. Roedd pobl eraill o'r farn y byddai **materion ariannol a'r angen i arbed arian** yn effeithio'n andwyol ar ansawdd.
58. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai deddfwriaeth gynnwys **yr hyn y mae ansawdd yn ei olygu o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau ac o safbwynt gofawrwr**.

Gorfodi Dyletswydd Ansawdd

59. Nododd cryn dipyn o ymatebion bryderon am y ffordd y byddai dyletswydd newydd o'r fath yn gweithio'n ymarferol, a ph'un a fyddai byrddau iechyd lleol yn gallu dangos eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd. Nodwyd rhai pryderon y **gellid ystyried dyletswydd o'r fath fel deddfwriaeth "arwyddol"**, yn hytrach na rhywbeth y gellid ei gorfodi'n gaeth, ac roedd rhai ymatebwyr **yn aneglur ynghylch sut y byddai'r ddyletswydd yn gweithio'n ymarferol**. Dywedodd rhai pobl nad oeddent yn deall yn llawn beth oedd yn cael ei gynnig.
60. Cynigiodd rhai ymatebwyr awgrymiadau ymarferol, gan gynnwys y dylai **Llywodraeth Cymru roi trefniadau craffu ffurfiol ar waith** er mwyn canfod i ba

raddau y mae byrddau iechyd lleol yn llwyddo i **gydweithio**; y dylai'r byrddau iechyd allu **dangos tystiolaeth o effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth**, gan gynnwys gyda'r trydydd sector; a ph'un a fyddai cyflwyno **asesiadau o'r effaith ar ansawdd** yn darparu'r lefel briodol o ffocws.

61. Awgrymwyd hefyd y gellid ystyried gosod **sancsiynau** ar sefydliadau a oedd yn parhau i weithio mewn seilos, er enghraifft, **mesurau uwchgyfeirio, ymyriadau, neu gyfarwyddyd i gydweithredu**.

Diwylliant ac ymddygiad

62. Yn fwy cyffredinol, roedd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad o'r farn **na fyddai deddfwriaeth ar ei phen ei hun yn cynnig** ffyrdd o weithio a fydd yn trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol. Roeddent o'r farn y byddai **cynnwys staff a'r cyhoedd** wrth lunio cynlluniau yn cefnogi newid mewn ymddygiad ac y dylai **cyd-gynhyrchu** ddod yn rhan o hyfforddiant proffesiynol.

Pennod 2: Dyletswydd Gonestrwydd

63. Nododd y rhan hon o Bennod 2 o'r Papur Gwyn ein cynigion ar gyfer rhoi Dyletswydd Gonestrwydd newydd ar waith i bob corff iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn annog diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw. Cynigiwyd gennym y byddai hyn yn adeiladu ar waith sy'n mynd rhagddo eisoes ar onestrwydd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Y cwestiynau a ofynnwyd gennym:

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y byddai datblygu dyletswydd gonestrwydd statudol ar draws y maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn cyfuno dyletswyddau presennol ac yn gweithio er lles system sy'n canolbwyntio ar y person.

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig hwn?

Pa faterion eraill y byddech am inni eu hystyried wrth fynd ati i ddatblygu'r cynnig hwn?

Themâu'r ymatebion

Cyffredinol

64. Nid atebodd llawer o'r ymatebwyr y cwestiynau am Ddyletswydd Gonestrwydd statudol, neu, os gwnaethant ateb, gwnaethant nodi "ydw" neu "nac ydw" heb unrhyw sylwadau pellach. Roedd nifer nodedig o'r ymatebion ar-lein, yn ôl pob tebyg, yn gyffredinol o blaid Dyletswydd Gonestrwydd ond ni wnaethant unrhyw sylwadau mewn gwirionedd am y cynnig. O blith y rheini a atebodd y cwestiynau yn yr adran hon, nodwyd y themâu allweddol canlynol. Cafodd y pwnc hwn ei drafod yn helaeth gan y grwpiau ffocws hefyd.

P'un a yw Dyletswydd Gonestrwydd yn syniad da

65. Roedd cryn dipyn o gefnogaeth i Ddyletswydd Gonestrwydd statudol ac, yn ogystal, iddi fod yn berthnasol i **bob lleoliad** ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys y sector annibynnol. Roedd rhai pobl o'r farn y byddai hyn yn gwella lefelau ymddiriedaeth rhwng sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol pe câi ei gweithredu'n briodol.
66. Roedd rhai ymatebion penodol o'r farn y byddai angen i unrhyw Ddyletswydd Gonestrwydd statudol fod yn gydnaws â **rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**, sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fod yn agored wrth ymdrin â phobl. Nodwyd hefyd y dylid dysgu o brofiadau'r Alban a Lloegr wrth gyflwyno Dyletswydd Gonestrwydd.
67. Roedd nifer sylweddol o bobl o'r farn y dylai Dyletswydd Gonestrwydd statudol fod yn berthnasol i **sefydliadau yn hytrach nag unigolion**. Mae hyn oherwydd bod dyletswydd broffesiynol eisoes ar lawer o staff i fod yn agored ac yn onest a dylai Dyletswydd Gonestrwydd statudol ategu dyletswyddau presennol yn hytrach na'u dyblygu. Roedd rhai pobl yn pryderu sut y gallai Dyletswydd Gonestrwydd fod yn berthnasol i gontractwyr annibynnol, megis meddygon teulu, deintyddion ac ati.

Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn y dylai Dyletswydd Gonestrwydd **ymestyn i benderfyniadau a wneir gan sefydliadau**, gan gynnwys penderfyniadau i newid gwasanaethau.

Gorfodi Dyletswydd Gonestrwydd

68. Nododd rhai ymatebwyr, gan gynnwys y rhai a ddaeth i'r grŵp ffocws yng Nghaerfyrddin, bryderon ynghylch sut y câi Dyletswydd Gonestrwydd ei gorfodi. Awgrymodd rhai y dylid cynnig **cymhelliant** am fod yn eirwir. Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo **na fyddai dirwyon a chosbau yn gweithio'n effeithiol** yng nghyd-destun Cymru. Awgrymwyd y gallai **arolygiadau** a gynhelir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gynnwys asesiad o'r graddau yr oedd Dyletswydd Gonestrwydd yn cael ei gweithredu.
69. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai angen **ymgyrch gyhoeddusrwydd** er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r Dyletswydd Gonestrwydd oherwydd teimlwyd y byddai hyn yn grymuso pobl i holi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gan wybod y gallent ddisgwyl iddynt fod yn agored ac yn dryloyw.

Diwylliant ac ymddygiad

70. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn **na ddylai fod angen deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod sefydliadau yn agored ac yn dryloyw** ac y dylai fod yn rhan annatod o'r ffordd y cânt eu rhedeg. Roedd eraill o'r farn bod digon o ddeddfwriaeth neu brosesau eisoes ar waith i sicrhau gonestrwydd a phe câi'r rhain eu gweithredu'n briodol, na fyddai angen unrhyw fesurau pellach.
71. Soniodd nifer fawr o ymatebion am **ddiwylliant o ddysgu, heb fwrw bai** sy'n blaenoriaethu diogelwch cleifion ac yn cefnogi staff. Roedd yr ymatebwyr hyn yn awyddus i weld Dyletswydd Gonestrwydd yn cael ei gweithredu ochr yn ochr â gwaith i wella diwylliant ac ymddygiad, gan gynnwys polisiau priodol ar gyfer "chwythu'r chwiban".
72. Roedd rhai pryderon o ran sut y gellid gweithredu Dyletswydd Gonestrwydd yn llwyddiannus ym mhob rhan o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys darparwyr annibynnol a darparwyr o'r trydydd sector, lle mae'r diwylliannau yn wahanol iawn a lle y gall fod amrywiaeth o drefniadau yswiriant ar waith. Nodwyd y byddai angen cryn dipyn o **hyfforddiant ar staff** pe cyflwynid Dyletswydd Gonestrwydd.

Pennod 3: Safonau cyffredin

73. Nododd y rhan hon o Bennod 3 o'r Papur Gwyn ein cynigion ar gyfer set gyffredin o safonau lefel uchel sy'n gymwys i iechyd a gofal cymdeithasol, ni waeth beth fo'r lleoliad na'r ardal.

Y cwestiynau a ofynnwyd gennym:

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai fod set gyffredin o safonau lefel uchel sy'n gymwys i iechyd a gofal cymdeithasol, ac y dylai'r safonau fod yn gymwys waeth beth yw lleoliad y gofal.

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig hwn?

Pa faterion eraill y byddech am inni eu hystyried wrth fynd ati i ddatblygu'r cynnig hwn?

Themâu'r ymatebion

Cyffredinol

74. Ni chyflwynodd llawer o ymatebwyr sylwadau ar y cynnig, dim ond ateb 'ydw' neu 'nac ydw'. Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a gyflwynodd sylwadau yn cytuno â'r cynnig, gan nodi'r rhesymau pam eu bod o'i blaid. Y brif thema drwy gydol yr ymatebion oedd y dylai fod gan unigolion **hawl i safon uchel o ofal ni waeth beth fo lleoliad y gofal na'r darparwr**. Awgrymodd rhai y gallai safonau cyffredin ymdrin ag anghysondebau mewn gofal. Dyna, ar y cyfan, oedd barn y bobl a ddaeth i'r grwpiau ffocws, er bod rhai pobl yn poeni sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol.
75. Roedd nifer fach yn anghytuno â'r cynnig gan awgrymu bod amrywiaeth o "safonau" ar waith eisoes, y caiff llawer ohonynt eu hanwybyddu oherwydd pwysau cost. At hynny, nodwyd ganddynt na fydd creu mwy byth o safonau yn gwella'r sefyllfa gan ddatgan y bydd yn syml yn **creu haen arall o reolwyr er mwyn "monitro" y safonau hynny**. Teimlwyd bod gweithwyr proffesiynol eisoes yn gweithio i safonau uchel iawn fel sy'n ofynnol gan eu cyrff rheoleiddio unigol. Nodwyd y themâu allweddol canlynol o'r ymatebion.

Ymarferoldeb gweithredu safonau a'r gallu i'w mesur

76. Nododd llawer o ymatebwyr eu bod yn cytuno bod hyn yn **cynnig cyfle da i gyd-gynhyrchu, nid dim ond â defnyddwyr gwasanaethau ond rhwng sefydliadau**. Roedd llawer o'r farn bod defnyddio safonau cyffredin, sy'n gymwys ym mhob maes, yn gam rhesymegol a synhwyrol a ddylai hwyluso parhad o ran darparu gofal o ansawdd. Roedd rhai o'r bobl a ddaeth i grwpiau ffocws Wrecsam a Chastell-nedd yn teimlo y byddai hyn yn gyfle da i edrych ar **hyfforddiant a dysgu** ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol.
77. Nododd rhai ymatebion y dylid cydnabod bod **amgylchiadau lle y byddai amrywiadau yn dderbyniol** ac y gall hyn adlewyrchu sefyllfa ddemograffig, ariannol neu glinigol benodol.

78. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y byddai perygl y byddai **set lefel uchel o gynigion o'r fath yn lliniarol ac na fyddai staff rheng flaen yn gallu eu defnyddio** oni chât'r iaith a'r nodau eu llunio'n ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn glir, yn briodol ac yn gryno. Roedd rhai ymatebwyr yn ansicr beth y byddai hyn yn ei olygu'n ymarferol.

Integreiddio rhwng ieched, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector

79. Roedd llawer o ymatebwyr yn ymwybodol o'r swm sylweddol o waith a wnaed eisoes ym maes gofal cymdeithasol, gan gynnwys yr ymgynghoriad diweddar ar Gam 2 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), yn ogystal â datblygiadau eraill megis y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Teimlwyd y dylid rhoi cyfle i'r elfennau hyn ymsefydlu ymhellach ac i'w hadolygu cyn cyflwyno newidiadau, a bod angen sicrhau bod **unrhyw safonau a gyflwynir yn ategu'r gwaith sydd eisoes yn hen fynd rhagddo ac yn gydnaws â'r gwaith hwnnw.**

Pennod 3: Cwynion ar y cyd

80. Nododd y rhan hon o Bennod 3 o'r Papur Gwyn ein cynigion i sefydliadau ieched, gofal cymdeithasol ac annibynnol ddod ynghyd i ddilyn proses ar y cyd ar gyfer cwynion sy'n berthnasol i ieched a gofal cymdeithasol.

Y cwestiynau a ofynnwyd gennym:

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd ei gwneud yn ofynnol i wahanol sefydliadau gydweithio wrth ymchwilio i gwynion yn ei gwneud yn haws i bobl gwyno pan fydd eu cwyn yn ymwneud â'r maes ieched a maes gwasanaethau cymdeithasol. Rydym hefyd yn credu y bydd yn annog sefydliadau i ddysgu gwersi er mwyn gwella eu gwasanaethau.

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig hwn?

Pa faterion eraill y bydddech am inni eu hystyried wrth fynd ati i ddatblygu'r cynnig hwn?

Themâu'r ymatebion

Cyffredinol

81. Ni chyflwynodd llawer o ymatebwyr sylwadau ar y cynnig, dim ond ateb 'ydw' neu 'nac ydw'. Roedd y safbwyntiau ar y cynigion yn y papur a oedd yn ymwneud â llais dinasyddion a dyfodol y Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau) wedi dylanwadu ar atebion llawer o'r ymatebwyr. Roedd yr ymatebion ysgrifenedig a'r ymatebion llafar yn y grwpiau ffocws yn tynnu sylw penodol at eu rôl wrth ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol. Nodwyd y themâu allweddol canlynol o'r ymatebion.

Dylai sefydliadau gwahanol gydweithio er mwyn ymchwilio i gwynion

82. Roedd lefel uchel o gefnogaeth i broses gwynion ddi-dor rhwng gwasanaethau ieched a gwasanaethau cymdeithasol pan fo'r gŵyn yn berthnasol i'r ddau ohonynt.
83. Roedd llawer o bobl, gan gynnwys y rhai a ddaeth i grŵp ffocws Casnewydd, o'r farn y dylid pennu **pwyt cyswllt unigol** ar gyfer cwynion, boed yn gwynion ieched, gofal cymdeithasol neu ar y cyd. Aeth rhai ymhellach, gan awgrymu **un corff ar gyfer yr holl gwynion**, ac awgrymodd eraill y dylai'r corff hefyd **ymchwilio i gwynion** yn annibynnol ar gyrff ieched neu ofal cymdeithasol. Awgrymodd eraill y dylid **ymdrin yn lleol** â chwynion a'u **cysylltu ag arolygiadau**. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r CICau **ymchwilio** i gwynion ac roedd rhai o'r farn y dylid cynnwys **aelodau** annibynnol **o'r cyhoedd** ar **dimau ymchwilio**. Roedd pobl o'r farn ei bod yn bwysig y bydd **gwybodaeth glir a hygyrch** am y broses ar y cyd yn **hanfodol** er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl **ddeall** sut i wneud cwyn. Roedd sylwadau ac awgrymiadau eraill yn cynnwys **system ddirwyon** nad yw'n cael **effaith andwyol** ar ddefnyddwyr gwasanaethau, yr angen i sicrhau bod system yn syml i'r rheini sydd **yn y ddalfa** a'r angen i ymdrin â diffyg eglurder ynghylch sut mae **prosesau diogelu** a chwynion yn rhyngweithio.
84. Codwyd nifer o bryderon ynghylch **ymchwiliadau ar y cyd** megis yr angen i fod yn **glir ynghylch** pwy fydd yn **arwain yr ymchwiliad** a phwy fydd yn gwneud y

penderfyniad terfynol. Roedd nifer o bobl yn pryderu y byddai **ymchwiliadau ar y cyd** yn arwain at **gynnydd yn yr amser** a gymerir i ymchwilio i gwynion. Nododd sawl unigolyn y byddai angen ystyried **materion trawsffiniol**. Roedd pryderon hefyd y gallai'r cynnig **gostio mwy** na'r system bresennol gan arwain at **faich ar adnoddau**.

85. Nododd sawl unigolyn y bydd angen **diwygio rheoliadau** gweithdrefnau **Gweithio i Wella a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol**. Nododd eraill y bydd angen ystyried sut y bydd unrhyw system **unioni** yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol.

86. Teimlwyd y bydd angen creu **cysylltiadau â mentrau annibynnol, trydydd sector neu gymdeithasol** wrth ymchwilio i gwynion. Nododd sawl unigolyn bwysigrwydd **rhannu gwybodaeth** rhwng **rheoleiddwyr proffesiynol** ac ymchwilwyr, ond gan sicrhau ar yr un pryd na chaiff rôl rheoleiddwyr proffesiynol ei **thanseilio**. Cyfeiriwyd at **gyfrinachedd cleifion** mewn perthynas â **rhannu gwybodaeth**.

Bydd ymchwiliadau ar y cyd yn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn ac yn ei gwneud hi'n haws dysgu gwersi mewn meysydd gwasanaeth

87. Roedd nifer fach o bobl o'r farn na fyddai proses ar y cyd yn gweithio gan fod angen i bobl **ddeall** bod **gwahanol sefydliadau** yn gyfrifol am **wahanol rannau** o'u gofal. Credant y gallai hyn arwain at **ddiffyg cyd-gynhyrchu a chanolbwyntio ar y claf**. Roedd un unigolyn yn pryderu y byddai proses ar y cyd yn rhy **fiwrocratig**.

88. Roedd pryderon bod pobl **ofn** codi cwynion **rhag ofn** y caent eu hedliw am wneud hynny, yn enwedig cwynion yn ymwneud ag **iechyd meddwl** ac **anableddau dysgu**.

89. Roedd nifer fawr o bobl yn cytuno bod angen i sefydliadau **ddysgu gwersi** o gwynion. Pwysleisiwyd y dylid **cyhoeddi** unrhyw **wersi** yn ogystal â manylion am **welliannau i wasanaethau** o ganlyniad i ddysgu gwersi.

90. Awgrymodd nifer o bobl y dylid cyflwyno **system adborth am brofiad** er mwyn **datrys materion** cyn iddynt droi'n gwynion. Roedd rhai pobl o'r farn y dylid rhoi **mwyr o bwyslais** ar **atal cwynion** rhag codi yn y lle cyntaf. Tynnodd llawer o bobl sylw at y **cyswllt** rhwng pryderon **a godir gan staff** a phryderon gan aelodau'r cyhoedd, gan awgrymu bod angen **cryfhau'r** prosesau ar gyfer ymchwilio i **gwynion gan staff**.

91. Nododd un unigolyn ei bod yn bwysig ystyried **adborth cadarnhaol** yn ogystal â chwynion. Tynnodd unigolyn arall sylw at yr angen am **raglen ddatblygu** ar gyfer system newydd ac **adborth gan achwynyddion** a'u **heiriolwyr**. Cafwyd **cefnogaeth gref** i **wasanaeth eirioli annibynnol** i roi **cymorth** priodol i'r rheini sy'n awyddus i gwyno boed yn gwynion iechyd, gofal cymdeithasol neu ar y cyd.

Pennod 4: Llais dinasyddion

92. Nododd y rhan hon o Bennod 4 o'r Papur Gwyn ein cynigion ar gyfer cryfhau llais dinasyddion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach, gan gynnwys o bosibl ddisodli'r model Cyngorau Iechyd Cymuned presennol â chorff cenedlaethol newydd a allai hefyd weithredu'n rhanbarthol ac yn lleol.

Y cwestiynau a ofynnwyd gennym:

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol lleol fod yn gweithio gyda'r cyhoedd i gyd-ddylunio a chyd-greu gwasanaethau, a bod angen i'r ffordd y caiff hyn ei wneud gael ei fonitro yn annibynnol. Rydym yn cynnig disodli'r Cyngorau Iechyd Cymuned statudol presennol a'u swyddogaethau a rhoi yn eu lle drefniant cenedlaethol i gynrychioli llais dinasyddion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, i gynghori a darparu sicrwydd annibynnol. Bydd y corff newydd yn gweithio ochr yn ochr ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ond caiff benderfynu sut y bydd yn gweithio ar lefel leol ei hun.

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig hwn?

Allwch chi weld unrhyw anawsterau ymarferol gyda'r awgrymiadau hyn?

Themâu'r ymatebion

Cyffredinol

93. Atebodd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad y cwestiynau a oedd yn ymwneud â llais dinasyddion. Darparodd y mwyafrif o'r rheini a ymatebodd ymateb naratif i'r cwestiynau yn hytrach na dim ond atebion "ydw" neu "nac ydw". Roedd llawer o'r ymatebion yn cyfeirio at themâu lluosog, hyd yn oed o fewn pwnc unigol llais dinasyddion, ac nid oeddent bob amser yn cyfleu neges gyson. Y rhan hon o'r Papur Gwyn hefyd oedd yr un y cafwyd y mwyafrif o drafod arni yn y grwpiau ffocws.
94. Roedd yn amlwg bod ymatebion i'r cwestiynau ar lais dinasyddion wedi dylanwadu ar atebion ymatebwyr i gwestiynau a oedd yn ymwneud â rheoleiddio ac arolygu, newidiadau i wasanaethau a chwynion ar y cyd. Nodwyd y themâu allweddol canlynol.

Corff cenedlaethol newydd i ddisodli'r Cyngorau Iechyd Cymuned ("CICau") a fyddai hefyd yn gweithredu'n rhanbarthol ac yn lleol.

95. Cafwyd **rhywfaint o feirniadaeth** o'r **diffyg manylion** tybiedig ynghylch y cynigion, ond ni wnaeth hyn atal y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr rhag mynegi eu barn. Cafwyd consensws cyffredinol ymhlith ymatebwyr **bod angen corff cryf i gynrychioli llais dinasyddion yng Nghymru**. Fodd bynnag, cafwyd safbwyntiau cymysg o ran p'un a fyddai mabwysiadu'r cynigion am lais dinasyddion yn y Papur Gwyn yn cyflawni'r hyn yr oedd ei angen.
96. Roedd nifer fawr o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynigion ar y sail y byddai eu mabwysiadu yn arwain at **leihau cryfder llais dinasyddion yng Nghymru**. Dyna

hefyd oedd barn rhai o'r bobl a ddaeth i sesiynau'r grwpiau ffocws. Roedd teimladau arbennig o gryf yn sesiwn Llangefni ynglŷn â dyfodol CIC yng Nghymru. Roedd y gwrthwynebiad yn deillio'n bennaf o'r gred fod y model CICau presennol yn gweithio'n dda a/neu y byddai mabwysiadu'r cynigion yn arwain at golli rhai o swyddogaethau penodol CICau (megis eu hannibyniaeth, y gallu i sicrhau bod y gwasanaeth iechyd yn atebol a'r gallu i ymgysylltu â phobl ar lefel leol). Roedd rhywfaint o'r gwrthwynebiad yn deillio o ddiffyg gwybodaeth a/neu ddealltwriaeth am y swyddogaethau a gâi eu cyflawni gan unrhyw gorff newydd a sut y byddai'n gweithredu. Mynegwyd **rhai pryderon am gost** unrhyw drefniant newydd.

97. Mynegodd nifer fawr o ymatebwyr y farn, yn hytrach na chreu corff newydd, **y dylid achub ar y cyfle i gryfhau'r CICau ac ehangu eu swyddogaethau presennol**. Felly, roedd llawer o'r ymatebwyr hyn yn cydnabod bod angen diwygio'r system bresennol i raddau. Nododd rhai ymatebwyr y byddai cryfhau rôl CICau yn adeiladu ar y gwaith da y maent eisoes yn ei gyflawni.
98. Mynegodd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion a/neu a nododd y dylid cadw'r CICau ac ehangu eu swyddogaethau hefyd safbwyntiau yn dangos eu bod yn cytuno â rhai cynigion penodol yn y Papur Gwyn, megis ehangu'r trefniant ar gyfer llais dinasyddion i ofal cymdeithasol, cadw cymorth eiriolaeth fel rhan o unrhyw drefniant newydd a'r angen cyffredinol i sicrhau corff cryf i gynrychioli llais dinasyddion yng Nghymru.
99. Roedd hefyd nifer sylweddol o ymatebwyr a **fynegodd eu bod o blaid y cynigion**, am eu bod yn cytuno y byddai eu mabwysiadu yn arwain at gryfhau'r trefniadau ar gyfer llais dinasyddion yng Nghymru fel y dymunir.
100. Roedd sylwadau ymatebwyr eraill yn fwy niwtral, gan nodi pe disodlir CICau, **ei bod yn bwysig sicrhau bod y corff newydd i gynrychioli llais dinasyddion yn gwella'r trefniadau presennol**.
101. Mae'n werth nodi bod rhai sylwadau wedi'u hailadrodd yn gymharol sylweddol wrth ystyried yr holl ymatebion gyda'i gilydd (h.y. o'r rheini a oedd o blaid y cynigion i'r rheini a oedd yn eu gwrthwynebu), gan gynnwys y farn y dylai'r trefniant newydd gael 'dannedd', y dylai fod yn **annibynnol**, y dylid gallu **clywed yn uniongyrchol gan ddinasyddion** ac y dylid sicrhau **presenoldeb lleol cryf**.
102. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd **fodelau amgen** y gellid eu mabwysiadu ar gyfer trefniant llais dinasyddion yng Nghymru. Roedd yr awgrymiadau yn amrywio o gynigion manwl yn ymwneud â swyddogaethau posibl i'w cyflawni gan unrhyw gorff newydd, i argymhellion y gellid ystyried trefniadau eraill, fel y rheini a ddefnyddir er mwyn rhoi llais i gleifion iechyd meddwl.
103. Mynegwyd cryn dipyn o bryder gan ymatebwyr am y **cynnig i seilio'r corff newydd i gynrychioli llais dinasyddion "i ryw raddau" ar Gyngor Iechyd yr Alban ("SHC")**. Tynnodd **llawer o ymatebwyr** sylw at y **feirniadaeth** ddiweddar o'r corff hwnnw. Nododd ymatebwyr eraill pe defnyddid Cyngor Iechyd yr Alban fel model, y byddai angen rhoi ystyriaeth fanylach i'r ffordd y gellid addasu'r model hwnnw yn effeithiol i'w ddefnyddio yng Nghymru.

Trefniant llais dinasyddion i gwmpasu iechyd a gofal cymdeithasol.

104. Roedd lefel uchel o gefnogaeth i'r cynnig i greu **un sefydliad i gynrychioli llais dinasyddion ym mhob rhan o'r maes iechyd a'r maes gofal cymdeithasol**. Roedd ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig i ddisodli CICau yn gyffredinol o'r farn y dylid ehangu swyddogaethau CICau i gynnwys gofal cymdeithasol. Roedd ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig i greu corff newydd i gynrychioli llais dinasyddion yn gyffredinol yn cytuno y dylai swyddogaethau'r corff newydd gynnwys pob rhan o'r maes iechyd a'r maes gofal cymdeithasol.
105. Fodd bynnag, rhybuddiodd nifer o ymatebwyr, er mwyn osgoi dryswch ac achosion posibl o ddyblygu, y byddai angen ystyried **sut y byddai'r trefniadau newydd yn cyd-fynd â threfniadau presennol i gynrychioli llais dinasyddion ym maes gofal cymdeithasol**. Nododd ymatebwyr eraill y dylid ystyried ffora presennol ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion yn y trydydd sector wrth ddatblygu unrhyw drefniadau newydd.

Nodweddion/swyddogaethau allweddol i'w cyflawni gan gorff llais dinasyddion

106. Datgelodd yr ymatebion nifer o nodweddion a swyddogaethau allweddol yr oedd ymatebwyr o'r farn y byddent yn ddymunol i gorff llais dinasyddion eu cyflawni (boed hynny drwy'r CICau presennol neu gorff newydd i gynrychioli llais dinasyddion).
107. Roedd cefnogaeth eang i barhau â'r **gwasanaeth eirioli a chynghori ar gwynion** a gynigir gan CICau ar hyn o bryd. Cyflwynodd rhai ymatebwyr sylwadau ar yr angen i wella gwasanaethau eiriolaeth i blant.
108. Nododd nifer fawr o ymatebwyr fod angen i'r trefniant llais dinasyddion fod yn **annibynnol** a gallu **clywed yn uniongyrchol** gan ddinasyddion am eu profiad ac y dylid sicrhau **presenoldeb lleol cryf** iddo.
109. Mynegodd nifer o ymatebwyr y farn y dylai'r corff llais dinasyddion **ddefnyddio trefniadau ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol** er mwyn helpu i gyrraedd yr unigolion hynny na chaiff eu lleisiau eu clywed fel arfer (gan gynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn ac unigolion ag anableddau) ac **ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o ymgysylltu â phobl**, gan gynnwys y rheini â chyflyrau meddygol neu gymdeithasol sy'n ei gwneud hi'n anodd iddynt ymgysylltu yn y ffordd arferol.
110. Mynegodd nifer o ymatebwyr y farn fod angen i unrhyw drefniant newydd gynnwys y **pŵer i sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn atebol**.
111. O ran **"arolygu"**, mynegwyd **amrywiaeth barn**. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod gan ymweliadau gan CICau ffocws gwahanol i arolygiadau a gyflawnwyd gan AGIC/AGC ac, ni waeth beth fyddai'r trefniant newydd, y dylai'r mathau hyn o ymweliadau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd barhau. Mynegodd ymatebwyr eraill y farn bod arolygiadau/ymweliadau gan CICau yn dyblygu'r arolygiadau a gynhelir gan AGIC/AGC ac na ddylent barhau o dan y trefniadau newydd. Roedd eraill o'r farn y dylai cynrychiolwyr o'r corff llais dinasyddion gael eu cynnwys fel elfen leyg arolygiadau AGIC/AGC. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn pe rhoddid trefniadau newydd ar waith, y byddai'n adeg briodol i egluro'r gwahaniaeth rhwng rolau "arolygu" AGIC/AGC a'r corff llais dinasyddion.

112. **Beirniadodd** rhai ymatebwyr **brose ymaelodi feichus y CICau** a oedd yn cael effaith andwyol ar eu gallu i recriwtio. Beirniadodd eraill ddiffyg amrywiaeth y CICau gan nodi y **byddai angen i unrhyw drefniant newydd sicrhau bod systemau ar waith i sicrhau aelodaeth fwy cynrychioliadol ac amrywiol.**

113. Mynegodd nifer fach o ymatebwyr y farn y dylai'r corff llais dinasyddion gynnwys **aelodau a gaiff eu talu**, yn hytrach na gwirfoddolwyr. Canmolodd **ymatebwyr eraill** y model CICau presennol (lle na chaiff aelodau eu talu) am ddarparu gwerth am arian. Felly, ni chafwyd consensws ar y mater hwn.

Bydd y corff newydd yn gweithio ochr yn ochr ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru, ond caiff benderfynu sut y bydd yn gweithio ar lefel leol ei hun.

114. Ni wnaeth nifer fawr o'r ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiynau yn ymwneud â llais dinasyddion sylwadau uniongyrchol ar yr agwedd hon ar y cwestiwn neu gwnaethant gyfuno eu hymateb â'r cwestiynau cysylltiedig ar reoleiddio ac arolygu. Ymhlith y rheini a wnaeth ymateb, **roedd yr ymatebion yn gymysg.**

115. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai corff unigol ar gyfer llais dinasyddion, AGIC ac AGC yn **gam cadarnhaol** gan y byddai'n annog trefniadau cydweithio, yn lleihau achosion o ddyblygu ac yn helpu i godi proffil a dylanwad llais dinasyddion. Nododd nifer o ymatebwyr a oedd o blaid trefniant o'r fath y byddai angen i'r corff llais dinasyddion fod yn **bartner cyfartal** yn y trefniant er mwyn iddo lwyddo.

116. Roedd ymatebwyr eraill yn **gwrthwynebu'r syniad yn chwynn** am fod angen i gorff llais dinasyddion fod yn gwbl annibynnol ar yr arolygiaethau a gallu sicrhau bod yr arolygiaethau yn atebol.

117. Nododd eraill eu bod yn awyddus i weld trefniadau cydweithio rhwng y corff llais dinasyddion a'r arolygiaethau, ond bod ganddynt bryderon ynghylch annibyniaeth y trefniant llais dinasyddion a'r potensial ar gyfer achosion o wrthdaro buddiannau pe câi'r holl swyddogaethau unigol eu cyflawni gan un corff.

Pennod 4: Newidiadau i wasanaethau

118. Nododd y rhan hon o Bennod 4 o'r Papur Gwyn ein cynigion ar gyfer sut y dyldid cyd-greu gwasanaethau â dinasyddion, a sut y gellir cryfhau'r broses gwneud penderfyniadau mewn perthynas â newidiadau i wasanaethau i gynnwys mewnbwn gan arbenigwyr clinigol a dinasyddion.

Y cwestiynau a ofynnwyd gennym:

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd cyflwyno system annibynnol i ddarparu cyngor clinigol am benderfyniadau yn ymwneud â newidiadau sylweddol i wasanaethau, gyda chynghor gan y corff newydd ar gyfer llais dinasyddion, yn annog gwaith ymgysylltu parhau, a chyflymu'r newid strategol drwy sicrhau proses dryloyw sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth a rôl fwy arweiniol a chyfeiriol ar ran Llywodraeth Cymru.

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

Pa faterion eraill y byddech am inni eu hystyried wrth fynd ati i ddatblygu'r cynnig hwn?

Themâu'r ymatebion

Cyffredinol

119. Ni wnaeth nifer sylweddol o ymatebwyr sylwadau uniongyrchol ar y cynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau ac, o'u plith, roedd y safbwyntiau wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rheini a oedd o blaid a'r rheini a oedd yn erbyn y cynnig eang. O blith y rheini a gyflwynodd sylwadau mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd, nodwyd y themâu allweddol canlynol:

Sefydlu paneli cyngor clinigol annibynnol i gynghori byrddau iechyd lleol

120. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y paneli cyngor clinigol annibynnol yn debygol o fod yn drech na'r corff llais dinasyddion lleyg ac na fyddai'r corff hwnnw yn cael ei ystyried mewn ffordd awdurdodol fel y safbwynt clinigol. Am y rheswm hwn, teimlwyd bod **angen rhywfaint o gynrychiolaeth leyg ar y paneli clinigol er mwyn creu gwell cydbwysedd** o ran sut y caiff tystiolaeth sy'n ymwneud â newidiadau i wasanaethau ei dehongli.
121. Roedd cefnogaeth gryfach o blaid yr egwyddor o **arweinyddiaeth glinigol wrth wneud penderfyniadau am newidiadau i wasanaethau a bod y sail tystiolaeth glinigol yn hanfodol wrth wneud penderfyniadau** ac mai clinigwyr eu hunain oedd yn y sefyllfa orau i'w deall a'i dehongli. Dyna hefyd oedd barn rhai o'r bobl a ddaeth i grŵp ffocws Aberhonddu. Dywedodd nifer sylweddol ymhellach, er eu bod o blaid proses o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar fewnbwn y cyhoedd a chleifion, na ddylid caniatáu i'r mewnbwn hwn atal Gweinidogion rhag gwneud penderfyniadau anodd nac arafu newidiadau strategol.
122. O ran aelodaeth paneli annibynnol, cafwyd cryn gefnogaeth i **ragor o fanylion ynghylch sut y câi paneli o'r fath eu sefydlu a sut y câi aelodau'r paneli eu recriwtio er mwyn sicrhau arbenigedd ac annibyniaeth berthnasol**. Roedd rhai o'r farn bod gormod o bwyslais ar yr elfen "glinigol" ac yn awyddus i ffactorau ac

effeithiau eraill pwysig gael eu hadlewyrchu, megis **cost a hygyrchedd** gwasanaethau.

123. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai cynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau ategu'r cam strategol tuag at integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ac y dylid gallu eu **cymhwyso mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol**, gyda nifer o ymatebwyr yn nodi nad oedd llawer o bwynt rhoi proses fanwl ar waith a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar drefniadau'r GIG ar gyfer gwneud penderfyniadau.
124. Roedd cryn dipyn o gefnogaeth i **egluro ystyr "newid sylweddol" a'i ddiffinio'n well**, er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin. Fodd bynnag, roedd llawer o ymatebwyr o'r farn nad oedd yn briodol i sefydliadau eu hunain bennu eu trothwyon a'u meini prawf eu hunain ac y dylid sicrhau consensws ehangach yn hyn o beth. Dyna hefyd oedd barn rhai o'r bobl a ddaeth i grwpiau ffocws Pontypridd a Chasnewydd. Fodd bynnag, roedd safbwyntiau yn amrywio mewn perthynas â'r pwynt hwn ac nid oedd rhai ymatebwyr eraill o'r farn bod **llawer o werth diffinio 'newid sylweddol', gan nodi y dylid ystyried pob newid i wasanaeth ar yr un sail a chan ddefnyddio'r un lefelau craffu**. Dyma, yn arbennig, oedd barn y Cynghorau Iechyd Cymuned.
125. Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynnig yn ychwanegu lefel arall ddiangen o fiwrocratiaeth.

Rôl y corff llais dinasyddion newydd wrth sicrhau ansawdd y broses o ymgysylltu â'r cyhoedd

126. Cafwyd cefnogaeth gadarn drwyddi draw i **gorff annibynnol i gynrychioli safbwyntiau'r cyhoedd yn llawn wrth drafod newidiadau i wasanaethau**. Cafwyd cefnogaeth gadarn hefyd i'r egwyddor o gydgyhyrchu a dull gweithredu amlddisgyblaeth mewn perthynas â gwneud penderfyniadau am newidiadau i wasanaethau, lle roedd llais y cyhoedd yr un mor bwysig ag ystyriaethau clinigol ac ystyriaethau eraill.
127. Rhybuddiodd llawer o ymatebwyr **rhag mabwysiadu corff llais dinasyddion yng Nghymru yn seiliedig ar fodel yr Alban**, o ystyried bod y model hwn, ar ôl ei adolygu, wedi derbyn beirniadaeth o ran ei allu i fod yn gwbl gynrychioliadol. Roedd ymdeimlad cryf hefyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu **digon o wybodaeth o bell ffordd mewn perthynas â ffurf a swyddogaeth arfaethedig y corff llais dinasyddion** a sut y byddai'n cael ei ariannu, ac fel y cyfryw nad oedd yn bosibl cyflwyno sylwadau deallus ar ei allu cymharol i sicrhau ansawdd y broses o ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â newid i wasanaethau. Teimlwyd bod yr amwysedd hwn yn tanseilio hygyrchedd y cynnig.
128. Roedd pryderon cryf am **allu corff o'r fath i fod yn gwbl gynrychioliadol**, a thynnodd ymatebwyr sylw yn arbennig at y cyd-destun lleol a'r potensial y gellid colli'r gallu i gynrychioli'r gymuned leol yn effeithiol. Er mwyn sicrhau ansawdd y broses ymgysylltu yn effeithiol (a sicrhau sail glir ar gyfer gwneud hynny), roedd nifer sylweddol o ymatebwyr o'r farn y byddai angen **set gytûn o safonau cyfranogiad** yn seiliedig ar yr Egwyddorion ar gyfer Ymgysylltu â Dinasyddion a'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru. Cafwyd consensws hefyd ymhlith y rheini a nododd y dylid ategu hyn â **chanllawiau clir** mewn perthynas â chydgyhyrchu.

129. Er mwyn rhoi sicrwydd ehangach ar ymgysylltu, tynnodd nifer sylweddol o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd sicrhau y caiff **grwpiau anos i'w cyrraedd a grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli**, unigolion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, plant a phobl ifanc, grwpiau ac is-grwpiau â nodweddion gwarchodedig a'r trydydd sector ehangach eu cynnwys a'u cynrychioli. Ystyriwyd bod cwrmpas y cynhwysiant hwn yn hollbwysig er mwyn sicrhau trefniadau cyd-gynhyrchu effeithiol. Dyna hefyd oedd barn y rhai a ddaeth i grŵp ffocws Wrecsam.
130. Awgrymodd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gamddealltwriaeth o ran y cynigion mewn perthynas â chyd-gynhyrchu a nododd sawl ymatebydd ei bryder fod y cynigion fel petaent yn awgrymu bod **trefniadau ymgynghori cyhoeddus ffurfiol yn debygol o gael eu disodli**, gan ddull ymgysylltu yn seiliedig ar drefniadau cyd-gynhyrchu cyffredinol i bob pwrpas.

Atgyfeirio achosion at Weinidogion dim ond os bydd trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol yn methu

131. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i bŵer atgyfeirio ffurfiol ac **i'r pŵer hwnnw gael ei gadw fel rhan o unrhyw drefniant newydd**, ond roedd cefnogaeth ehangach i'r egwyddor fwy cyffredinol y dylid rhoi **hawl i'r cyhoedd herio** penderfyniadau ar gyfer newidiadau i wasanaethau. Nododd nifer fach o ymatebwyr gefnogaeth benodol i'r cynnig mai dim ond pan fetho popeth arall a phan fydd trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol yn methu y dylai Gweinidogion wneud penderfyniadau.
132. Cafwyd cefnogaeth sylweddol i'r farn, lle nad ystyriwyd bod penderfyniadau o fudd i'r cyhoedd, **y dylid cyflwyno her briodol drwy adolygiad barnwrol** ac y dylid ystyried darparu cyllid i gorff llais dinasyddion newydd ddechrau adolygiad barnwrol mewn achosion priodol. Dyma, yn arbennig, oedd barn y Cynghorau Iechyd Cymuned.

Pennod 4: Rheoleiddio ac arolygu

133. Roedd y rhan hon o Bennod 4 o'r Papur Gwyn yn nodi ein cynigion ar gyfer sicrhau gwell eglurder mewn perthynas â gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGC), ac ar gyfer sicrhau bod y gwaith hwnnw yn addas ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys sut y gallai weithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i helpu i integreiddio'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn well. Cynigiwyd gennym hefyd y dylid sefydlu corff annibynnol newydd i gynnwys arolygu, rheoleiddio a llais dinasyddion.

Y cwestiynau a ofynnwyd gennym:

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd sicrhau fframwaith deddfwriaethol creiddiol cliriach ar gyfer AGIC yn helpu i integreiddio a chydweithio'n agosach gydag AGC (AGGCC gynt), ac y dylai hyn gael ei ddatblygu.

Beth yw eich barn chi am y cynnig?

A oes unrhyw faterion penodol yr hoffech i ni eu hystyried wrth ddatblygu'r cynigion hyn ymhellach?

Fodd bynnag, rydym hefyd yn credu y gallai fod gwerth ystyried corff newydd – er enghraifft, Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru – i roi mwy o annibyniaeth o ran rheoleiddio ac arolygu a rhoi llais i ddinasyddion.

A fydddech yn cefnogi syniad o'r fath?

Pa faterion y dylem eu hystyried pe bai'r syniad hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach?

Themâu'r ymatebion

Cyffredinol

134. Nid atebodd llawer o'r ymatebwyr y cwestiynau am arolygu a rheoleiddio, neu, os gwnaethant ateb, gwnaethant nodi "ydw" neu "nac ydw" heb unrhyw sylwadau pellach. Roedd yn amlwg bod eu safbwyntiau ar y cynigion yn y papur a oedd yn ymwneud â llais dinasyddion a dyfodol y Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau) wedi dylanwadu ar atebion llawer o'r ymatebwyr. O blith y rheini a atebodd y cwestiynau yn yr adran hon, nodwyd y themâu allweddol canlynol.

Fframwaith sylfaenol cliriach ar gyfer AGIC

135. Cafwyd lefel uchel o gefnogaeth i adolygu fframwaith deddfwriaethol AGIC. Nododd pobl y byddai gwneud hynny yn **gam rhesymol tuag at integreiddio** ac yn cefnogi'r ffordd y mae pobl mewn gwirionedd yn derbyn ac yn profi gofal; y byddai'n **cau bylchau pwysig** yn y fframwaith rheoleiddio ac yn ymdrin â meysydd lle ceir **dyblygu** lle y gallai gwasanaeth gael ei reoleiddio gan AGIC ac AGC ar yr un pryd. Roedd rhai pobl o'r farn pe cyflawnwyd y gwaith hwn, y byddai'n bwysig **adeiladu ar ddeddfwriaeth bresennol** sydd eisoes ar waith ym maes gofal cymdeithasol h.y.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

136. Ni allai rhai ymatebwyr **weld ar unwaith pam** y byddai adolygu fframwaith deddfwriaethol AGIC yn hwyluso cydweithio agosach ag AGC na threfniadau integreiddio'n fwy cyffredinol.

Uno'r arolygiaethau

137. Cafwyd safbwyntiau cymysg o ran p'un a ddylid uno AGIC ac AGC. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai hyn **ddigwydd yn bendant cyn gynted â phosibl**, tra bod eraill yn cytuno y dylai ddigwydd ond o bosibl **fesul cam**. Roedd un ymatebydd o'r farn y dylid gweithredu mewn ffordd fwy radical gan uno'r **holl arolygiaethau yng Nghymru** i greu un corff. Roedd eraill o'r farn mai **dim ond pe byddai'r system iechyd a gofal cymdeithasol ei hun eisoes yn gwbl integredig** y byddai arolygiaeth iechyd a gofal cymdeithasol unigol yn effeithiol. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y gellid gwneud llawer mwy i annog trefniadau cydweithio agosach rhwng yr arolygiaethau heb orfod cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol na'u huno'n ffurfiol.
138. Rhybuddiodd ymatebwyr eraill am beryglon ceisio uno dwy arolygiaeth â **hunaniaethau a chyfrifoldebau penodol**. Roedd ofn y **gellid lleihau lefelau arbenigedd** ac y gellid effeithio ar ffocws yr arolygiaethau. Roedd eraill yn pryderu y gallai materion iechyd **lethu gofal cymdeithasol** o fewn trefniant o'r fath.
139. Roedd rhai ymatebion yn ymdrin â'r **broses** rheoleiddio ac arolygu, gan danlinellu pwysigrwydd **cyfranogiad llyeg**, a'r angen i'r broses gydnabod anghenion siaradwyr **Cymraeg** yn llawer gwell. Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn bod angen cynnal gweithdrefnau arolygu a rheoleiddio'n unol â **safonau a gydnabyddir yn rhwyngwladol** megis ISO.

Annibyniaeth yr arolygiaethau a chreu corff annibynnol newydd i gynnwys arolygu, rheoleiddio a llais dinasyddion

140. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r syniad o greu Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad neu drefniant addas arall i wella annibyniaeth, er bod nifer o bobl o'r farn pe sefydlwyd corff newydd y byddai angen iddo fod yn **wirioneddol annibynnol ar y llywodraeth**, nid dim ond hyd braich. Unwaith eto, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y **gellid cynnwys mwy o annibyniaeth yn y trefniadau presennol**, er enghraifft, drwy lythyrau cylch gwaith.
141. Fodd bynnag, roedd nifer gymharol fawr o ymatebwyr o'r farn bod **angen rhagor o wybodaeth** arnynt am y corff newydd arfaethedig cyn y gallent gyflwyno sylwadau llawn ac roedd eraill o'r farn na fyddai unrhyw fudd yn deillio o sefydlu corff arall. Rhybuddiodd eraill y **gallai'r broses** o uno neu sefydlu corff newydd **wyro adnoddau** o'r arolygiaethau ar adeg lle ceir cryn dipyn o newid a phwysau ariannol eisoes.
142. Fel y nodwyd o dan yr ymateb ynghylch llais y dinesydd, roedd nifer o bryderon ynghylch y cynnig i leoli swyddogaethau rheoleiddio, arolygu a llais dinasyddion o fewn yr un corff. Er bod rhai o'r farn y gallai **llai o sefydliadau fod o**

fudd, gan y byddai'n haws i bobl ddeall, roedd gan eraill bryderon ynghylch sut y byddai rhannau unigol corff o'r fath yn **gwarchod eu hannibyniaeth** ac yn **egluo eu swyddogaethau a'u hunaniaeth unigol**. Roedd pobl o'r farn y byddai angen ystyried hyn yn ofalus iawn pe rhoddwyd y cynnig ar waith. Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys y rhai a ddaeth i grwpiau ffocws Castell-nedd, Llangefni a Chasnewydd, o'r farn y **dylai fod gan lais dinasyddion bob amser ei hunaniaeth benodol ei hun** ac y dylai fod yn annibynnol ar yr arolygiaethau ac unrhyw un arall. Roedd eraill o'r farn y byddai cynnwys yr holl swyddogaethau hyn o fewn un corff yn **rhy fawr ac anhydrin**.

143. Cyflwynodd ymatebwyr eraill sylwadau ynghylch gweithrediad corff newydd o'r fath, gan gynnwys sut y byddai'r **rhyngwyneb rhyngddo ef ac endidau eraill** yn yr un "gofod", megis Estyn, Gofal Cymdeithasol Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn gweithio. Codwyd hyn yng ngrŵp ffocws Wrecsam hefyd. Cafwyd rhai pryderon ynghylch sut y **byddai corff cenedlaethol mawr o'r fath yn cysylltu â phobl leol** ac yn adlewyrchu anghenion grwpiau penodol megis plant a phobl ifanc.

Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar gyfer y Fit ar gyfer y Dyfodol – Rhestr lawn o ymatebwyr

Allwedd i adnabod grwpiau		Nifer.
1	Unigolion	180
2	Llywodraeth Leol	19
3	Prifysgolion a chyrff academiaidd	1
4	Pleidiau gwleidyddol/grwpiau undeb	17
5	Grwpiau a chymdeithasau gweithwyr iechyd proffesiynol	21
6	Sefydliad/staff y GIG	22
7	Adrannau/asiantaethau'r Llywodraeth	10
8	Llais dinasyddion/trydydd sector/Comisiynwyr	56
9	Mentrau cymdeithasol/busnesau	9
10	Grwp Crefyddol	1
Total		336

Roedd y rhai a ddynodir ag * yn dymuno aros yn ddiennw. Ni wnaeth yr unigolion diennw eraill gynnwys eu henw wrth ymateb.

Cyfeirnod	Enw	Sefydliad	Nifer.
WGWPMB1	D Kenny		1
WGWPMB2	Dame C Black		2
WGWPMB3	H Randall		3
WGWPMB4	C Ringer		4
WGWPMB5	G James		5
WGWPMB6	D Hart		6
WGWPMB7	M P Boyle		7
WGWPMB8	R Lewis	Age Cymru	1
WGWPMB9	N Taylor	Cyngor Undebau Llafur Dyffryn Clwyd	1
WGWPMB10	L Bidmead/G McCullagh	Hyfforddiant Addysg a Sgiliau Adfer y Gymuned (CREST)	2
WGWPMB11	H Shaddick	Your Voice Advocacy	3
WGWPMB12	B Stapley		8
WGWPMB13	J Finch Saunders	Aelod Cynulliad	2
WGWPMB14	S M Sandham		9
WGWPMB15	R Goodway	Fferylliaeth Gymunedol Cymru	1
WGWPMB16	K Kras	Cymdeithas Amddiffyn Meddygol	4
WGWPMB17	L George	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Chynghrair Wirfoddol Torfaen	5
WGWPMB18	P Edwards		10
WGWPMB19	D Price	Pobl yn Gyntaf Blaenau Gwent	6
WGWPMB20	Professor R Moore		11
WGWPMB21	S Milsom	Dros 50 Caerfilli	7
WGWPMB22	L Saville Roberts	Aelod Senedd	3
WGWPMB23	J Morgan	Dros 50 Casnewydd	8
WGWPMB24	C Woodhall	Coleg Brenhinol Anesthetyddion	2

WGWPMB25	J Mills	Fforwm Gofalwyr Casnewydd	9
WGWPMB26	M Watts		12
WGWPMB27	J Browne		13
WGWPMB28	Dr N McKenzie		14
WGWPMB29	K White		15
WGWPMB30	N Ramsay AM	Aelod Cynulliad	4
WGWPMB31	L Whalley	Cyngor Tref Abergele	1
WGWPMB32	P Rendle		16
WGWPMB33	N Bennett	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	1
WGWPMB34	Dr R Walton	Cydweithredwyr Cynyddol Cymru	1
WGWPMB35	D Smith	Co-Ops a Mutuals Cymru	2
WGWPMB36	Dr I G Higginbotham		17
WGWPMB37	Dr C Walters	Coleg Brenhinol Lleferydd ac Iaith	3
WGWPMB38	P Pinto de Sa	Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth	4
WGWPMB39	C Mortimer	Cyngor Cymuned Gelligaer	2
WGWPMB40	T Brooks		18
WGWPMB41	L Pritchard	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg	10
WGWPMB42	C Owen	Cymdeithas Ddeintyddol Prydain	5
WGWPMB43	S Blythe	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	3
WGWPMB44	N Blanluet		19
WGWPMB45	B Parker		20
WGWPMB46	R Lanchbury	Cyngor Cymuned Cilybebyll	4
WGWPMB47	P Allen		21
WGWPMB48	Committee Administrator	Pwyllgor Meddygol Lleol Bro Taf	1
WGWPMB49	L Carver	Cyngor Bro Morgannwg	5
WGWPMB50	W Thomas		22
WGWPMB51	M Jones		23
WGWPMB52	C Fidler	Canolfan Cydweithredol Cymru	6
WGWPMB53	A Shakeshaft	Cyfarwyddwyr Therapiau a Gwyddorau Iechyd y GIG	2
WGWPMB54	*Dienw		24
WGWPMB55	C Costello	Grŵp Cymorth Ballynahinch	11
WGWPMB56	M Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsaml	7
WGWPMB57	H Williams		25
WGWPMB58	L Harper		26
WGWPMB59	Dr S Francis		27
WGWPMB60	DCC M Jukes	Heddlu De Cymru ac arweinydd iechyd ar gyfer pob un o'r pedwar Heddlu Heddlu	2
WGWPMB61	H Rogers	Coleg Brenhinol y Bydwragedd	6
WGWPMB62	*Dienw		28
WGWPMB63	E Petitti	Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol	7
WGWPMB64	*Dienw		29
WGWPMB65	J Pearce		30
WGWPMB66	P Ford MBE MCSP	Chartered Society of Physiotherapy	8
WGWPMB67	K Houston	Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi	5
WGWPMB68	M Joyce		31
WGWPMB69	R Walton	Dros 50 Bro Morgannwg	12
WGWPMB70	Dr S Aitken	Grŵp Arweinyddiaeth Cyfarwyddwyr	3

		Iechyd y Cyhoedd	
WGWPMB71	*Dienw		32
WGWPMB72	H Vaughan Thomas	Archwilydd Cyffredinol Cymru	3
WGWPMB73	E Murphy	Cyngor Sir y Fflint	8
WGWPMB74	D Vincent	Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor	13
WGWPMB75	E Hicks	Diverse Cymru	14
WGWPMB76	J Shaughnessy	St John Cymru-Wales	15
WGWPMB77	M Tippet	Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru	9
WGWPMB78	S Howe	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	16
WGWPMB79	B Evans	Gofalwyr Cymru	17
WGWPMB80	R Raison	Coleg Brenhinol Nyrsio Cymru	10
WGWPMB81	G Ryall-Harvey	Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru	18
WGWPMB82	*Dienw		33
WGWPMB83	*Dienw		34
WGWPMB84	H David AM	Aelod Cynulliad	6
WGWPMB85	H Thomas	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	19
WGWPMB86	A Roper	Cydweithredol Cartrefi Cymru	3
WGWPMB87	S Allen	Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a Bro Morgannwg	20
WGWPMB88	A Mutlow	Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan	21
WGWPMB89	G Owens		35
WGWPMB90	F McDonald	Cymdeithas Sglerosis Ymledol Cymru	22
WGWPMB91	M Ashe	Coleg Brenhinol Pediatrig ac Iechyd Plant	11
WGWPMB92	J Robertson	Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan	23
WGWPMB93	Lieutenant Colonel (Retd) J Skipper		36
WGWPMB94	J Pritchard		37
WGWPMB95	Revd G Rhys	Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru)	1
WGWPMB96	*Dienw		38
WGWPMB97	G Halfpenny	Cyngor Pobl Hŷn Castell-nedd Port Talbot	24
WGWPMB98	B Campbell		39
WGWPMB99	C Harris		40
WGWPMB100	J Burgen	Cyngor Ar Bopeth Ynys Mon	25
WGWPMB101	B Woodward		41
WGWPMB102	C Edwards	Hospice UK a Hospices Cymru	26
WGWPMB103	M Lewis	Hawliau	4
WGWPMB104	M Davies		42
WGWPMB105	F Webster		43
WGWPMB106	M John-Williams	Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru	5
WGWPMB107	Dr E Youd	Coleg Brenhinol y Patholegwyr	12
WGWPMB108	*Dienw		44
WGWPMB109	K Laugharne	Cyngor Meddygol Cyffredinol	13
WGWPMB110	R Jones	Cyfarwyddwyr Nyrsio Grŵp Cyfoed a Chyfarwyddwyr Nyrsio Cynorthwyl Cymru Gyfan	4
WGWPMB111	G Baranski	Arolygiaeth Gofal Cymru	4
WGWPMB112	O Smith MP		45

WGWPMB113	J Field	Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru	5
WGWPMB114	G Galletly	Ymddiriedolaeth GIG Felindre	6
WGWPMB115	Dr R Hall and Mr J Evershed	Cydweithredol Gofal Iechyd Canolbarth Cymru	7
WGWPMB117	R Crowder	Cydweithrediaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru	14
WGWPMB118	M Goodfellow	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	9
WGWPMB158	G Evans	Gofal Cymdeithasol Cymru	5
WGWPMB159	R Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	8
WGWPMB160	T Gilling	Canolfan Craffu Cyhoeddus	27
WGWPMB161	M Williams	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	9
WGWPMB162	Kevin Brennan MP	Aelod Senedd	7
WGWPMB163	P Welsh	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	10
WGWPMB174	Llyr Gruffydd AM	Aelod Cynulliad	8
WGWPMB175	Cindy Chen	Pro-Mo Cymru	6
WGWPMB176	Claire L Marchant	Cyngor Sir Fynwy	10
WGWPMB177	Michelle Lewis	Cyngor ar Bopeth Cymru	28
WGWPMB178	Alyson Thomas	Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru	29
WGWPMB181	C Jenkins	Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg	30
WGWPMB182	R Bevan	Grŵp Ysgrifenyddion y Bwrdd GIG	11
WGWPMB183	A Thomas	Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda	31
WGWPMB184		Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	32
WGWPMB185	S Beach	Prif Fferyllwyr Cymru	12
WGWPMB186	M Crossley	Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	6
WGWPMB187	H Williams	Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol (AvMA)	33
WGWPMB188	N Roberts	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	7
WGWPMB189	H Avoth	Iechyd Cyhoeddus Cymru	13
WGWPMB190	S Combe	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	14
WGWPMB191	R Williams	Parkinson's UK	34
WGWPMB192	G Pycroft	Cymorth Canser MacMillan	35
WGWPMB193	P Martin	Hafal	36
WGWPMB194	Dr. E Williams and Mr. M Thornton		46
WGWPMB195	N Evans	Comisiynydd Plant Cymru	37
WGWPMB196	R Wright		47
WGWPMB197	D Young	Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru	15
WGWPMB198	A Hughes	Gwrando a Dysgu'r GIG o'r Grŵp Adborth	15
WGWPMB199	D Hughes	Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol	16
WGWPMB200	P Lathbury	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys	38
WGWPMB201	N Lloyd-Jones	Cyddfederasiwn GIG Cymru	16
WGWPMB202	D Blench	Awdurdod Safonau Proffesiynol	8
WGWPMB203	O John	Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru	17
WGWPMB204	A Evans	Ymddiriedolaeth Ffibrosis Cystig	39

WGWPMB205	C Kissick	Sefydliad Prydeinig y Galon	40
WGWPMB206	H Howson	Comisiwn Bevan	1
WGWPMB207	E Hitchon	Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	17
WGWPMB208	G Lang	Cyfarwyddwyr Cynllunio, GIG Cymru	18
WGWPMB209	R Williams	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	19
WGWPMB210	S Capstick	Cardiff Third Sector Council (C3SC)	41
WGWPMB211	C Shillabeer	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	20
WGWPMB212	P Pavia	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	11
WGWPMB213	L Merredy	Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru Cymru	18
WGWPMB214	David T C Davies MP	Aelod Senedd	9
WGWPMB215	R Ebley		48
WGWPMB216	P Gripper		49
WGWPMB218	A Jones	Coleg Brenhinol y Llawfeddygon	19
WGWPMB220	D Hutton	Unison Cymru	10
WGWPMB221	L Barry	Gofal Cymdeithasol Oedolion Cyngor Sir Powys	12
WGWPMB222	P Murphy	TLC Nursing & Homecare Plus Ltd, Cymdeithas Gofal Cartref Cymru	
WGWPMB223	R Nowell-Phillips	Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion	42
WGWPMB224	R Hedge	Coleg Brenhinol y Meddygon	20
WGWPMB225	Cllr. Mabon ap Gwynfor		50
WGWPMB226	C Phillips	Cyngor Gwynedd	13
WGWPMB227	L Edwards		51
WGWPMB230	S Bryn	Comisiynydd y Gymraeg	43
WGWPMB231	Unknown		52
WGWPMB232	Mr R Blake		53
WGWPMB233	Anonymous*		54
WGWPMB234	R Taylor		55
WGWPMB235	E Ann Thomas		56
WGWPMB236	M Antoniw AM	Aelod Cynulliad	11
WGWPMB237	Anonymous		57
WGWPMB238	Anonymous		58
WGWPMB239	Anonymous		59
WGWPMB240	Arfon Jones	Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	12
WGWPMB241	Mr J E Jenks	Unite (Cangen aelodau wedi ymddeol yng Ngogledd Orllewin Cymru)	13
WGWPMB242	J and M Waterhouse		60
WGWPMB243	P Cutress, D McGregor	Y Cynulliad Pobl yn erbyn Austerity (Y Gangen Y Rhyl)	14
WGWPMB244	Anonymous		61
WGWPMB245	Anonymous		62
WGWPMB246	W Evans	Cyngor Gwledig Llanelli	14
WGWPMB247	M Buckley	Cyngor Tref Maesteg	15
WGWPMB248	K Houston	Etholaeth Plaid Cymru Caerffili	15

WGWPMB249	H Roberts		63
WGWPMB250	D McCann	Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	16
WGWPMB251	D M and J L Hopkin		64
WGWPMB252	A J Beddow	Cymdeithas Iechyd Sosialaidd Cymru Cymru	16
WGWPMB253	Cllr V Smith		65
WGWPMB254	F C Hunt		66
WGWPMB255	T Conway and B Conway		67
WGWPMB256	A Rees	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru	9
WGWPMB257	Anonymous		68
WGWPMB258		Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf	44
WGWPMB259		Cyngor Iechyd Cymuned Powys	45
WGWPMB260	G John		69
WGWPMB261	R S	Mirus-Cymru	46

WGWPOL1	*Dienw		70
WGWPOL2	Anonymous		71
WGWPOL3	Anonymous		72
WGWPOL4	*Dienw		73
WGWPOL5	*Dienw		74
WGWPOL6	ffurflen heb ei gwblhau		
WGWPOL7	S Mitchell		75
WGWPOL8	*Dienw		76
WGWPOL9	*Dienw		77
WGWPOL10	*Dienw		78
WGWPOL11	D Esteve	SIS Cymru	7
WGWPOL12	*Dienw		79
WGWPOL13	N Taylor		80
WGWPOL14	*Dienw		81
WGWPOL15	*Dienw		82
WGWPOL16	*Dienw		83
WGWPOL17	*Dienw		84
WGWPOL18	*Dienw	*Dienw	47
WGWPOL19	*Dienw		85
WGWPOL20	*Dienw		86
WGWPOL21	*Dienw		87
WGWPOL22	A Griffin		88
WGWPOL23	*Dienw	*Dienw	48
WGWPOL24	*Dienw		89
WGWPOL25	C Warlow	Cymorth Cymunedol Llanfair-ym-Muallt	49
WGWPOL26	J B Jones	Unite Aelodau Wedi Ymddeol Bangor	17
WGWPOL27	*Dienw		90
WGWPOL28	*Dienw		91

WGWPOL29	T Jones		92
WGWPOL30	G Bell		93
WGWPOL31	*Dienw		94
WGWPOL32	D Cooper		95
WGWPOL33	Dr DG Salter OBE		96
WGWPOL34	*Dienw	*Dienw	8
WGWPOL35	*Dienw		97
WGWPOL36	*Dienw		98
WGWPOL37	*Dienw		99
WGWPOL38	J Evans		100
WGWPOL39	M Poole		101
WGWPOL40	*Dienw		102
WGWPOL41	S Moore		103
WGWPOL42	Anonymous		104
WGWPOL43	Dr A Jones	Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Caerdydd	105
WGWPOL44	*Dienw		106
WGWPOL45	*Dienw		107
WGWPOL46	P Fenner		108
WGWPOL47	*Dienw		109
WGWPOL48	*Dienw		110
WGWPOL49	*Dienw		111
WGWPOL50	P Egan	Cyngor Cymuned Llandochoau	17
WGWPOL51	*Dienw		112
WGWPOL52	P Bolton		113
WGWPOL53	H Randall	Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru	114
WGWPOL54	*Dienw		115
WGWPOL55	L Jones		116
WGWPOL56	C Davies		117
WGWPOL57	*Dienw	*Dienw	18
WGWPOL58	C Laphap		118
WGWPOL59	*Dienw		119
WGWPOL60	ffurflen heb ei gwblhau		
WGWPOL61	*Dienw		120
WGWPOL62	Nicki		121
WGWPOL63	*Dienw		122
WGWPOL64	*Dienw		123
WGWPOL65	John		124
WGWPOL66	*Dienw		125
WGWPOL67	L Collier		126
WGWPOL68	W R Williams		127
WGWPOL69	R Overington		128
WGWPOL70	*Dienw		129
WGWPOL71	L Hayward		130
WGWPOL72	D R Harries		131
WGWPOL73	*Dienw		132
WGWPOL74	*Dienw		133
WGWPOL75	*Dienw		134
WGWPOL76	*Dienw		135
WGWPOL77	*Dienw		136

WGWPOL78	Mrs J Thomas		137
WGWPOL79	M Imms		138
WGWPOL80	T Matthews		139
WGWPOL81	*Dienw		140
WGWPOL82	D P Thomas		141
WGWPOL83	*Dienw		142
WGWPOL84	*Dienw		143
WGWPOL85	*Dienw		144
WGWPOL86	*Dienw		145
WGWPOL87	*Dienw		146
WGWPOL88	*Dienw		147
WGWPOL89	A Easson		148
WGWPOL90	R Norris		149
WGWPOL91	A Wilson		150
WGWPOL92	T Masters		151
WGWPOL93	J Kell	Y Gymdeithas Cleifion	50
WGWPOL94	*Dienw		152
WGWPOL95	*Dienw		153
WGWPOL96	Dr A Rayani	Pwyllgor Meddygol Lleol Morgannwg	20
WGWPOL97	*Dienw		154
WGWPOL98	*Dienw		155
WGWPOL99	*Dienw	*Dienw	51
WGWPOL100	*Dienw		156
WGWPOL101	*Dienw		157
WGWPOL101	*Dienw	*Dienw	19
WGWPOL102	*Dienw		158
WGWPOL103	ffurflen heb ei gwblhau		
WGWPOL104	*Dienw		159
WGWPOL105	*Dienw		160
WGWPOL106	*Dienw		161
WGWPOL107	D Schaffer	Triniaeth Deg i Ferched Cymru	52
WGWPOL108	*Dienw		162
WGWPOL109	*Dienw		163
WGWPOL110	*Dienw	*Dienw	53
WGWPOL111	*Dienw		164
WGWPOL112	C Connell	Grŵp Cyswilt NICE a NICE Cymru	10
WGWPOL113	*Dienw		165
WGWPOL114	*Dienw		166
WGWPOL115	*Dienw		167
WGWPOL116	E Bacon		168
WGWPOL117	C Sanderson	Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, Caeredin	21
WGWPOL118	*Dienw		169
WGWPOL119	ffurflen heb ei gwblhau		
WGWPOL120	K Holmes	Gwasanaethau Ymchwil Barn	9
WGWPOL121	T Windle	Prostate Cancer UK	54
WGWPOL122	*Dienw		170
WGWPOL123	J Morris	Gofal a Thrwsio Cymru	55
WGWPOL124	S Howard		171

WGWPOL125	*Dienw		172
WGWPOL126	*Dienw		173
WGWPOL127	J Allen		174
WGWPOL128	*Dienw		175
WGWPOL129	S Jenkins		176
WGWPOL130	J Lewis		177
WGWPOL131	R B Harrison	Grŵp Gweithredu 50+ Sir y Fflint	56
WGWPOL132	A Wales		178
WGWPOL133	Dr K Saunders	Ymarfer Meddygol Butetown	21
WGWPOL134	Mr R Ebley		179
WGWPOL135	*Dienw		180

**Ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, Pennod 4:
Nodwch os ydych yn cefnogi'r cynigion canlynol...**

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol lleol fod yn gweithio gyda'r cyhoedd i gyd-ddylunio a chyd-greu gwasanaethau, a bod angen i'r ffordd y caiff hyn ei wneud gael ei fonitro yn annibynnol. Rydym yn cynnig disodli'r Cyngorau Iechyd Cymuned statudol presennol a'u swyddogaethau a rhoi yn eu lle drefniant cenedlaethol i gynrychioli llais dinasyddion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, i gynghori a darparu sicrwydd annibynnol. Bydd y corff newydd yn gweithio ochr yn ochr ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ond bydd yn annibynnol i benderfynu sut y bydd y gweithio ar lefel leol.	Ydw	Nac ydw
Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd cyflwyno system annibynnol i ddarparu cyngor clinigol am benderfyniadau yn ymwneud â newidiadau sylweddol i wasanaethau, gyda chyngor gan y corff newydd ar gyfer llais dinasyddion , yn annog gwaith ymgysylltu parhaus, ac yn cyflymu'r newid strategol drwy sicrhau proses dryloyw sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth a rôl mwy arweiniol a chyfeiriol ar ran Llywodraeth Cymru.	Ydw	Nac ydw
Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod sicrhau fframwaith deddfwriaethol creiddiol cliriach ar gyfer AGIC yn helpu i integreiddio a chydweithio'n agosach gydag AGGCC, a dylai hyn gael ei ddatblygu.	Ydw	Nac ydw
Fodd bynnag, rydym hefyd yn credu y gallai fod gwerth ystyried corff newydd - er enghraifft, Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru - i roi mwy o annibyniaeth o ran rheoleiddio ac archwilio a rhoi llais i ddinasyddion.	Ydw	Nac ydw

Rhowch unrhyw sylwadau:

Eich enw chi: _____

E-bost: (os yw'n berthnasol): _____

Eich cyfeiriad: _____

Anfonwch at: Yr Is-adran Ansawdd Gofal Iechyd Llywodraeth Cymru Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ	Neu ar e-bost at: HQDMailbox@wales.gsi.gov.uk
--	---

- ☐ Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch.

Papur Gwyn Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol - cyflwyniadau i grwpiau rhanddeiliaid (gan gynnwys cyfarfodydd trafod cyn y Papur Gwyn)

Dyddiad y cyfarfod	Grŵp Rhanddeiliaid
Mai 2017	
24/5/17	Cyfarfod Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned
Mehefin 2017	
29/6/17	Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru
Gorffennaf 2017	
12/7/17	Penaethiaid Grŵp Archwilio
21/7/17	Grŵp Ysgrifenyddion Bwrdd GIG Cymru
21/7/17	Grŵp Arwain Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd
27/7/17	Fforwm Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol
Awst 2017	
02/8/17	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
23/8/17	Diwrnod Datblygu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Medi 2017	
7/9/17	Aelodau'r Grŵp Gwranddo a Dysgu oddi wrth Adborth
8/9/17	Cyfarfod Cymdeithas Archwilio Clinigol ac Effeithiolrwydd Cymru
14/9/17	Cyngor Sir Fynwy
18/9/17	Cyd Brif Weithredwyr Byrddau Cyngorau Iechyd Cymuned
27/9/17	Fforwm Defnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Gofalwyr

Digwyddiadau grwpiau ffocws

Contractiwyd Communities Connected gan Lywodraeth Cymru ganol mis Awst i hwyluso wyth o grwpiau ffocws ar draws Cymru, gyda'r cyfranogwyr yn dod o rwydweithiau a grwpiau cymunedol gyda chymorth ychwanegol gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Gellir gweld lleoliad, dyddiad a'r nifer oedd yn bresennol ym mhob un o'r digwyddiadau isod:

Lleoliad	Dyddiad	Nifer yn bresennol
Castell-nedd	18 Medi	10 aelod o'r cyhoedd/rhanddeiliad
Wrecsam	19 Medi	7 aelod o'r cyhoedd
Pontypridd	20 Medi	16 aelod o'r cyhoedd/rhanddeiliad
Aberhonddu	22 Medi	8 aelod o'r cyhoedd/rhanddeiliad
Casnewydd	23 Medi	29 aelod o'r cyhoedd/rhanddeiliad
Caerfyrddin	26 Medi	9 aelod o'r cyhoedd/rhanddeiliad
Llangefni	27 Medi	15 aelod o'r cyhoedd/rhanddeiliad
Y Trallwng	28 Medi	3 aelod o'r cyhoedd/rhanddeiliad